# Manyleb cymhwyster

**Diploma Lefel 2 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae**
**Rhif: 610/0643/9**

## Crynodeb o'r cymhwyster

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | **Diploma Lefel 2 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae** | | |
| **Rhif cymhwyster Ofqual (QN)** | 610/0643/9 | **Cyfeirnod** | 61006439 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)** | 457 | **Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC)** | 560 |
| **Gwerth credyd** | 56 | | |
| **Oedran isaf** | 16 | | |
| **Pwrpas y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr am yr egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n sail i waith chwarae a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant 4–16 oed. Mae'n ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen wrth weithio o dan oruchwyliaeth, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr arddangos ei fod yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn llawn dros gyfnod yn y gweithle.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn yn adlewyrchu safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) presennol 2016 ar gyfer gwaith chwarae.<br><br>Ar gyfer canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn i fodloni safon prentisiaeth Lefel 2 Gweithwyr Chwarae (Lloegr), dylai aseswyr a thiwtoriaid nodi'r canllawiau a argymhellir wrth ddewis unedau dewisol neu gynyddu eu darpariaeth o'r unedau gorfodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau yn cael eu cwmpasu'n llawn. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen 'Canllawiau mapio Gweithwyr Chwarae Lefel 2' o dan 'deunyddiau cymorth' ar wefan NCFE. | | |
| **Graddio** | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | | |
| **Dull asesu** | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol. | | |
| **Profiad lleoliad gwaith/diwydiant** | Mae'r cymhwyster hwn yn gofyn i ddysgwyr gwblhau profiad lleoliad gwaith gorfodol drwy gydol y cymhwyster, cyn eu hardystio. | | |
| **Rheolau cyfuno** | Er mwyn ennill y cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni **56 credyd** yn llwyddiannus: **40 credyd** o'r **12 uned orfodol**, ynghyd ag isafswm o **16 credyd** o'r **unedau dewisol**. | | |
| **Fframwaith prentisiaethau** | Mae modd ennill y cymhwyster hwn hefyd fel rhan o fframwaith prentisiaeth gwaith chwarae Cymru. Mae gwybodaeth am brentisiaethau a'r dogfennau diweddaraf ar gael o Lyfrgell Fframweithiau Tystysgrifau Prentisiaeth Cymru https://acwcerts.co.uk/web/frameworks-library. Dylid troi at y rhain bob amser i sicrhau bod yr holl gymwysterau, yr unedau, yr asesiadau, yr oriau yn y swydd a'r amodau prentisiaeth gorfodol yn cael eu cyflawni a'u profi. | | |

| | |
|---|---|
| **Safon prentisiaeth gweithiwr chwarae Lefel 2 (Lloegr)** | Yn ogystal â'r rheol cyfuno cymhwyster uchod, cyflawnir cwmpas llawn safon prentisiaeth  Lefel 2 Gweithwyr Chwarae (Lloegr) wrth ddewis yr unedau dewisol canlynol:<br><br>• **L2PWOP2 Cyfrannu at ddarparu bwyd a diod yn y lleoliad gwaith chwarae (J/650/0587)**<br>• **L2PWOP3 Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y lleoliad gwaith chwarae (K/650/0588)**<br>• **L2PWOP6 Cefnogi teithio plant y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae (Y/650/0591)** |

## Cynnwys

**Crynodeb o’r cymhwyster** **2**
**Crynodeb o'r newidiadau** **6**
**Adran 1: Cyflwyniad** **7**
Nodau ac amcanion 7
Llawlyfr cymorth 7
Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru 7
Cyflawni'r cymhwyster hwn 8
Dilyniant 8
Gofynion o ran adnoddau 8
Profiad lleoliad gwaith 8
Ystodau oedran a gwmpesir gan y cymhwyster 8
Sut caiff y cymhwyster ei asesu 9
Asesiad mewnol 9
**Adran 2: cynnwys uned a chanllawiau asesu** **11**
L2PW1 Deall egwyddorion gwaith chwarae (A/650/0574) 12
L2PW2 Deall y safle gwaith chwarae (D/650/0575) 14
L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576) 16
L2PW4 Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn safle gwaith chwarae (H/650/0577) 19
L2PW5 Deall sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (J/650/0578) 21
L2PW6 Cefnogi perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae (K/650/0579) 23
L2PW7 Cefnogi chwarae plant (R/650/0580) 26
L2PW8 Cefnogi iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (T/650/0581) 28
L2PW9 Budd risg i blant (Y/650/0582) 31
L2PW10 Diogelu a lles plant mewn safle gwaith chwarae (A/650/0583) 32
L2PW11 Cefnogi gwaith y tîm gwaith chwarae (D/650/0584) 35
L2PW12 Datblygu eich ymarfer eich hun (F/650/0585) 37
L2PWOP1 Cynnal gwaith chwarae mewn ysgol (H/650/0586) 39
L2PWOP2 Cyfrannu at ddarparu bwyd a diod yn y safle gwaith chwarae (J/650/0587) 41
L2PWOP3 Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae (K/650/0588) 42
L2PWOP4 Sefydlu a hwyluso gwaith chwarae mewn lleoliad amhenodedig (L/650/0589) 45
L2PWOP5 Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol (T/650/0590) 48
L2PWOP6 Cefnogi teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae (Y/650/0591) 51
L2PWOP7 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (A/650/0592) 53
L2PWOP8 Cefnogi chwarae y tu allan (D/650/0593) 55
L2PWOP9 Cefnogi plant i ddatblygu hunaniaeth a lles (F/650/0594) 57
Dulliau asesu a argymhellir 58
Strategaethau ac egwyddorion asesu sy’n berthnasol i’r cymhwyster hwn 60
Egwyddorion asesu NCFE ar gyfer cymwysterau gofal oedolion, gofal plant ac iechyd
**Adran 3: esboniad o dermau** **64**
**Adran 4: cymorth** **68**
Deunyddiau cymorth 68
Deunyddiau cymorth eraill 68
Atgynhyrchu'r ddogfen hon 68

**Cysylltwch â ni** **69**

**Atodiad A** **70**

Unedau 70
Unedau gorfodol 70
Unedau dewisol 72

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r adran hon yn crynhoi'r newidiadau i'r fanyleb cymhwyster hon ers y fersiwn ddiwethaf (Fersiwn 1.0 Gorffennaf 2022).

| Fersiwn | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o'r diwygiadau |
|---|---|---|
| f1.0 | Gorffennaf 2022 | Cyhoeddiad cyntaf |
| f2.0 | Tachwedd 2023 | Er mwyn bodloni safon prentisiaeth Lefel 2 Gweithwyr Chwarae (Lloegr) yn llawn, mae meini prawf asesu newydd wedi'u hychwanegu at ddwy uned ac mae canllawiau cyflwyno newydd hefyd wedi'u llunio a'u cyfeirio atynt i gynorthwyo tiwtoriaid.<br><br>Meini prawf asesu newydd wedi'u hychwanegu ar gyfer uned L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576), canlyniad dysgu (LO) 1.<br><br>Meini prawf asesu newydd wedi'u hychwanegu ar gyfer uned L2PW7 Cefnogi chwarae plant (R/650/0580), LO4.<br><br>Canllawiau ychwanegol wedi'u hychwanegu ar gyfer canolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn yn yr adrannau crynodeb o'r cymhwyster a cyflawni'r cymhwyster hwn.<br><br>Mae adran ychwanegol o egwyddorion asesu NCFE ar gyfer gofal oedolion, gofal plant a chymwysterau iechyd hefyd wedi'i chynnwys.<br><br>Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth am strategaethau asesu. |

## Adran 1: Cyflwyniad

Os ydych yn defnyddio manyleb y cymhwyster hwn at ddibenion cynllunio, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.

### Nodau ac amcanion

Nod y cymhwyster hwn yw:

- canolbwyntio ar astudio pwysigrwydd chwarae a gwaith chwarae ym mywydau plant
- cynnig ehangder a dyfnder astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth
- cynnig cyfleoedd i feithrin nifer o sgiliau ymarferol a thechnegol

Amcan y cymhwyster hwn yw:

- meithrin gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio dan oruchwyliaeth gyda phlant mewn safle gwaith chwarae

### Llawlyfr cymorth

Rhaid defnyddio manyleb y cymhwyster hwn ochr yn ochr â'r llawlyfr cymorth gorfodol sydd ar gael ar wefan NCFE. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ategol ychwanegol i helpu gyda'r cynllunio, y cyflawni a'r asesu.

Mae manyleb y cymhwyster hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n benodol i gymhwyster, gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch ac nad yw wedi l ei chynnwys yn y llawlyfr cefnogi.

### Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio neu sy'n dymuno gweithio gyda phlant rhwng 4 a 16 oed mewn safleoedd gwaith chwarae.

Dylai dysgwyr fod yn 16 mlwydd oed o leiaf. Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond efallai y bydd gan golegau neu ddarparwyr hyfforddiant eu canllawiau eu hunain.

Mae cofrestru yn ôl disgresiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb, a dylid ei wneud ar y Porth.

Nid oes unrhyw sgiliau na gwybodaeth flaenorol benodol y mae'n rhaid i ddysgwr eu cael ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, gallai fod o gymorth i ddysgwyr os ydynt eisoes wedi ennill cymhwyster lefel 1.

Mae'r canolfannau’n gyfrifol am sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni'r canlyniadau dysgu a chydymffurfio â'r gofynion llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch perthnasol.

Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymhwyster hwn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel, neu gyda'r un teitl neu deitl tebyg, gan y gall dyblygu'r dysgu effeithio ar gymhwysedd cyllid.

## Cyflawni'r cymhwyster hwn

Er mwyn ennill y cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr lwyddo i gyflawni **56 credyd**: **40 credyd** o'r **12 uned orfodol**, ynghyd ag o leiaf **16 credyd** o'r **unedau dewisol.**

Yn ogystal, cyflawnir cwmpas llawn safon prentisiaeth Lefel 2 Gweithwyr Chwarae (Lloegr) wrth ddewis yr unedau dewisol canlynol:

- L2PWOP2 Cyfrannu at ddarparu bwyd a diod yn y lleoliad gwaith chwarae (J/650/0587)
- L2PWOP3 Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y lleoliad gwaith chwarae (K/650/0588)
- L2PWOP6 Cefnogi teithio plant y tu allan i'r lleoliad gwaith chwarae (Y/650/0591)

Cyfeiriwch at y rhestr o unedau yn atodiad A neu'r crynodebau uned yn adran 2 am ragor o wybodaeth.

Er mwyn ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod wedi cyflawni holl ganlyniadau dysgu'r unedau fel y manylir arnynt ym manyleb y cymhwyster hwn. Gellir gofyn am dystysgrif rannol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill eu cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan.

Dilyniant

Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn fynd ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth:
  - clybiau cyn ac ar ôl ysgol
  - cynlluniau chwarae gwyliau
  - meysydd chwarae antur
  - safleoedd chwarae mynediad agored
  - ceidwaid chwarae
- addysg bellach:
  - Tystysgrif Lefel 3 NCFE CACHE mewn Deall Gwaith Chwarae (610/0644/0)
  - Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae (610/0645/2)

## Gofynion o ran adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion adnoddau gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod adnoddau addas ar gael i ddysgwyr er mwyn iddynt gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu priodol.

## Profiad lleoliad gwaith

Mae'r cymhwyster hwn yn gofyn i ddysgwyr gwblhau profiad lleoliad gwaith gorfodol drwy gydol y cymhwyster, cyn eu hardystio.

## Ystodau oedran a gwmpesir gan y cymhwyster

Mae'r cymhwyster hwn yn ymdrin â phlant rhwng 4 ac 16 oed.

## Sut caiff y cymhwyster ei asesu

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr yn erbyn y safonau a osodir mewn cymhwyster.

Mae un elfen i'r asesiad, sef:

- portffolio o dystiolaeth a asesir yn fewnol , sy'n cael ei asesu gan staff y ganolfan ac sy'n destun sicrhau ansawdd allanol gan NCFE (fel arfer rhaid i'r ganolfan gwblhau proses sicrhau ansawdd fewnol o hyd)

Rhaid i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn y rhan hon er mwyn ennill Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae.

Cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd yw'r Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae.

Gall cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd fod yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC), ac mae'n gymhwyster parod ar gyfer swydd sy'n gofyn bod dysgwyr yn dangos y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio mewn diwydiant penodol. Rhaid asesu cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn y gweithle neu mewn amgylchedd gwaith go iawn yn unol â'r strategaeth asesu berthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am y strategaeth, ewch i'r dudalen gymwysterau ar wefan NCFE.

Os na fydd dysgwyr yn llwyddiannus, gallant ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai y bydd tâl am hyn.

Bydd yr holl dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan y dysgwr yn cael ei hasesu yn erbyn y safonau a ddisgwylir gan ddysgwr lefel 2 ar gyfer pob canlyniad dysgu.

Oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg, a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg.

### Asesiad mewnol

Rydym wedi creu rhai tasgau sampl ar gyfer rhai o'r unedau gorfodol sy'n cael eu hasesu'n fewnol. Maent i'w gweld yn y ddogfen ar dasgau sampl asesiad mewnol. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Gallwch osod y tasgau hyn yn eu cyd-destun i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr i'w helpu i gasglu eu portffolio o dystiolaeth. Cynlluniwyd y tasgau i gwmpasu'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar draws pob uned ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymestyn a herio. I gael gwybod rhagor am osod y tasgau yn eu cyd-destun, cysylltwch â thîm datblygu'r darparwr.

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchwyd a rhaid i'r aseswr gydlofnodi hyn. Darperir enghreifftiau yn adran 2 o dystiolaeth addas ar gyfer y portffolio ar gyfer pob uned.

Gall canolfan ddewis creu ei thasgau asesu mewnol ei hun. Mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus yn y ganolfan, sef:

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu
- ymdrin yn briodol â'r cynnwys, canlyniadau dysgu (LO), neu feini prawf asesu (AC)

- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio i'r rhai uwch eu cyrhaeddiad

Gweler y ddogfen ganllawiau ar gyfer creu tasgau asesu mewnol ar wefan NCFE.

Darperir canllawiau asesu ar gyfer pob uned. Gall aseswyr ddefnyddio dulliau asesu eraill cyn belled â'u bod yn ddilys ac yn ddibynadwy, a'u bod yn cynnal uniondeb yr asesiad a'r safonau sy'n ofynnol gan y cymhwyster hwn.

## Adran 2: cynnwys uned a chanllawiau asesu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am strwythur a chynnwys y cymhwyster hwn.

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios dysgwyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu, ac os oes modd sicrhau ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r sawl sy'n sicrhau ansawdd yn allanol.

Mae'r esboniad o dermau'n esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymhwyster hwn. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn adran 3.

## L2PW1 Deall egwyddorion gwaith chwarae (A/650/0574)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn caniatáu i'r dysgwr archwilio'r egwyddorion gwaith chwarae sy'n sail i ymarfer gwaith chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **21 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall egwyddorion gwaith chwarae | 1.1 Disgrifio'r egwyddorion gwaith chwarae |
| | 1.2 Disgrifio sut mae'r egwyddorion gwaith chwarae wedi'u gwreiddio yn ei arfer ei hun |
| 2. Yn deall natur chwarae plant | 2.1 Disgrifio'r angen i blant chwarae |
| | 2.2 Diffinio'r termau canlynol:<br>• chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd<br>• chwarae sy'n hunangyfeiriedig<br>• chwarae wedi'i gymell yn gynhenid |
| | 2.3 Disgrifio'r gwahaniaeth rhwng:<br>• chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd<br>• chwarae sy'n hunangyfeiriedig<br>• gweithgareddau a arweinir gan oedolion |
| 3. Yn deall effaith amddifadedd chwarae ar blant | 3.1 Esbonio beth yw ystyr y term amddifadedd chwarae |
| | 3.2 Nodi effaith bosibl amddifadedd chwarae |
| 4. Yn deall gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn perthynas â chwarae | 4.1 Esbonio gofynion CCUHPA mewn perthynas â chwarae |
| | 4.2 Defnyddio enghraifft i ddisgrifio sut mae ei arfer yn ymwneud â CCUHP mewn perthynas â chwarae |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Gall cyfleoedd asesu cyfannol ar gyfer LO1 gyflwyno eu hunain o fewn LO2 uned L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576).<br><br>Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n cael eu bodloni'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a bod dyfarniad o gymhwysedd yn cael ei gofnodi.<br><br>Gallai'r uned hon gael ei hasesu trwy:<br><br>• aseiniad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd |

**L2PW2 Deall y safle gwaith chwarae (D/650/0575)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon bydd y dysgwr yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth o safle gwaith chwarae a sut i gynllunio ar gyfer chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **29 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall nodweddion safle gwaith chwarae effeithiol | 1.1 Nodi **gwahanol fathau o safle gwaith chwarae** |
| | 1.2 Disgrifio nodweddion safle gwaith chwarae sy'n gyfoethog o ran chwarae |
| | 1.3 Disgrifio adnoddau allweddol a allai gael eu cyflwyno yn y safle gwaith chwarae i gefnogi chwarae plant |
| 2. Yn deall damcaniaethau gwaith chwarae | 2.1 Crynhoi prif gamau'r cylch chwarae |
| | 2.2 Amlinellu pwysigrwydd ymateb i arwyddion chwarae |
| | 2.3 Esbonio cysyniad darnau rhydd |
| 3. Yn deall mannau chwarae | 3.1 Disgrifio gwahanol **fannau chwarae** |
| | 3.2 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant gael amrywiaeth o fannau chwarae i ddewis o'u plith |
| 4. Yn deall mathau o chwarae | 4.1 Disgrifio gwahanol **fathau o chwarae** |
| | 4.2 Amlinellu gwahanol ffyrdd y gall plant ddefnyddio technoleg neu'r byd rhithwir yn eu chwarae |
| | 4.3 Amlinellu sut mae'r cyfle i ymgymryd â gwahanol fathau o chwarae o fudd i blant |

| **Ystod** |
|---|
| **1.** Deall nodweddion safle gwaith chwarae effeithiol |
| **1.1 Gwahanol fathau o safleoedd gwaith chwarae:**<br>Dylai'r dysgwr allu adnabod o leiaf 4 gwahanol fath o safle gwaith chwarae. |
| **3.** Deall mannau chwarae |
| **3.1 Mannau chwarae:**<br><br>Rhaid ymdrin â'r mannau chwarae canlynol:<br><br>• ffisegol<br>• dros dro<br>• parhaol<br>• affeithiol |
| **4.** Deall mathau o chwarae |
| **4.1 Mathau o chwarae:**<br><br>Dylai'r dysgwr ymdrin ag o leiaf 6 math o chwarae gwahanol. |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| **1.2** Gallai dysgwyr elwa o gyfrannu at awdit chwarae yn eu lleoliad gwaith i gefnogi eu gwerthfawrogiad o leoliad gwaith chwarae sy'n gyfoethog o ran chwarae.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd |

**L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant 4–16 oed. Bydd y dysgwr yn deall datblygiad plant o safbwynt gwaith chwarae ac yn ystyried effaith trawsnewidiadau a phrofiadau. Bydd y dysgwr yn archwilio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn datblygu dealltwriaeth o ymarfer cynhwysol yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at safle gwaith chwarae cynhwysol. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **26 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall sut i gynllunio safle chwarae sy'n diwallu anghenion plant a'u dewisiadau chwarae | 1.1 Disgrifio sut mae gallu plant yn gallu effeithio ar eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae |
| | 1.2 Disgrifio sut i gynllunio safle chwarae ar gyfer y gwahanol ystodau oedran sy'n mynychu |
| | 1.3 Amlinellu sut i ddarparu amrywiaeth o adnoddau i fodloni **anghenion amrywiol** plant |
| | 1.4 Amlinellu pwysigrwydd hyrwyddo **cynaladwyedd** mewn lleoliad gwaith chwarae |
| 2. Yn deall sut mae chwarae'n hanfodol i ddatblygiad a lles plant | 2.1 Disgrifio sut mae chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd yn hanfodol i ddatblygiad plant |
| | 2.2 Amlinellu gwerth chwarae y tu allan i iechyd, lles ac iechyd meddwl plant |
| 3. Yn deall effaith trawsnewidiadau ar blant | 3.1 Disgrifio **trawsnewidiadau** allweddol y mae'r rhan fwyaf o blant yn cael profiad ohonynt |
| | 3.2 Nodi trawsnewidiadau eraill y gall plant ddod ar eu traws |
| | 3.3 Esbonio sut y gall trawsnewidiadau ddylanwadu ar ymddygiad a sut mae plant yn chwarae |
| | 3.4 Disgrifio sut y gall gweithiwr chwarae gefnogi plant sy'n cael profiad o drawsnewidiadau |
| 4. Yn deall sut mae'r gweithiwr chwarae yn cefnogi ymddygiad plant o fewn safle gwaith chwarae | 4.1 Esbonio sut y gall **ffactorau allanol** ddylanwadu ar ymddygiad plant |
| | 4.2 Amlinellu sut y gellir cefnogi plant i ddeall gwerth perthnasoedd cadarnhaol |
| | 4.3 Esbonio manteision cynnwys plant mewn cytundebau grŵp ynghylch ymddygiad disgwyliedig |
| 5. Yn deall arferion gwaith chwarae cynhwysol | 5.1 Nodi deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant |
| | 5.2 Esbonio polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer cynhwysol |
| | 5.3 Disgrifio pwysigrwydd ymarfer gwaith chwarae sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| 6. Yn gallu cyfrannu at leoliad gwaith chwarae cynhwysol ac ysgogol | 6.1 Nodi anghenion amrywiol plant |
| | 6.2 Myfyrio ynghylch sut mae eich ymarfer yn sicrhau bod plant yn ganolog i'r ymarfer |
| | 6.3 Addasu mannau chwarae ac adnoddau i gefnogi cynhwysiant |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| | 6.4 Myfyrio ynghylch sut y gellid gwneud ei safle gwaith chwarae ei hun yn fwy cynhwysol ac ysgogol |

**Ystod**

**1.** Deall sut i gynllunio safle chwarae sy'n bodloni anghenion plant a'u dewisiadau chwarae

**1.3 Anghenion amrywiol:**

Gallent gynnwys:

- oedran
- gallu
- diwylliant
- anghenion unigolion fel anghenion addysgol arbennig ac anabledd neu iaith

**1.4 Cynaladwyedd:**

Gallai gynnwys:

- ailgylchu
- ailddefnyddio
- lleihau
- trwsio
- gwastraff bwyd

**3.** Deall effaith trawsnewidiadau ar blant

**3.1 Trawsnewidiadau:**

Mae'n rhaid i'r dysgwr allu disgrifio 3 gwahanol fath o drawsnewidiad.

**4.** Deall sut mae'r gweithiwr chwarae yn cefnogi ymddygiad plant o fewn safle gwaith chwarae

**4.1 Ffactorau allanol:**

Gallent gynnwys:

- ymddygiad a ddysgwyd
- dynameg teulu
- trawsnewidiad
- dull cyfathrebu
- arwydd o gam-drin neu fwlio
- diffyg ffiniau
- lles corfforol/emosiynol
- anghenion ychwanegol

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO6 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gall cyfleoedd asesu cyfannol gyflwyno'u hunain o fewn LO2 uned L2PW1 Deall egwyddorion gwaith chwarae (A/650/0574).

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n cael eu bodloni'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio a bod dyfarniad o gymhwysedd wedi'i gofnodi.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd |

## L2PW4 Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn safle gwaith chwarae (H/650/0577)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr uned hon yn helpu gweithwyr chwarae i ddatblygu dealltwriaeth o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth weithio mewn safle gwaith chwarae, yn ogystal â dangos sut i hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **26 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall pwysigrwydd ymgynghori â phlant mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Esbonio pwysigrwydd cymryd rhan gyda phlant a sut mae hyn yn ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) |
| | 1.2 Disgrifio gwahanol ddulliau o gael adborth gan blant y gellid eu defnyddio mewn safle gwaith chwarae |
| | 1.3 Disgrifio sut i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan blant:<br>• i nodi anghenion a dewisiadau chwarae<br>• i gynrychioli llais plant<br>• i ddylanwadu ar ymarfer |
| 2. Yn deall rôl y gweithiwr chwarae wrth gefnogi plant | 2.1 Deall sut y gall y gweithiwr chwarae gefnogi plant gyda'r canlynol drwy chwarae:<br>• cyd-drafod<br>• gwneud penderfyniadau<br>• parchu unigoliaeth<br>• hunan-barch<br>• hunanddibyniaeth<br>• cadernid |
| | 2.2 Amlinellu pam mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r **effaith** y gallwch ei chael ar chwarae plant a'r safle gwaith chwarae |
| 3. Yn deall eiriolaeth ar gyfer chwarae a gwaith chwarae | 3.1 Esbonio pam mae'n bwysig i'r gweithiwr chwarae fod yn eiriolwr dros chwarae |
| | 3.2 Nodi gwahanol ffyrdd y gall gweithiwr chwarae hybu ymwybyddiaeth am fanteision chwarae a gwaith chwarae |
| 4. Yn gallu bod yn eiriolwr dros chwarae | 4.1 Dangos cyfranogiad gyda phlant pan fo hynny'n briodol |
| | 4.2 Myfyrio ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a llais y plentyn mewn safle gwaith chwarae |
| | 4.3 Dangos sut i hybu manteision chwarae i **eraill** |

| **Ystod** |
|---|
| **2.** Deall rôl y gweithiwr chwarae wrth gefnogi plant |
| **2.2 Effaith:**<br><br>Gallai dull gweithiwr chwarae gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y broses chwarae a phrofiadau chwarae'r plant. Rhaid i ddysgwyr ymdrin â'r ddwy agwedd. |
| **4.** Gallu bod yn eiriolwr dros chwarae |
| **4.3 Eraill:**<br><br>Gallent gynnwys:<br><br>• rhieni<br>• staff ehangach<br>• gwirfoddolwyr<br>• y gymuned leol |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid asesu canlyniad dysgu LO4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• disgrifiad myfyriol<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy’n briodol)<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• gallai cynhyrchion gwaith gefnogi arsylwi uniongyrchol, neu drafodaeth broffesiynol fel tystiolaeth atodol o ymarfer, er enghraifft:<br>  ○ tystiolaeth o weithgareddau i hyrwyddo chwarae<br>  ○ hysbysfyrddau y mae’r dysgwr wedi cyfrannu atynt ac sy’n hyrwyddo manteision chwarae<br>  ○ taflenni neu bosteri wedi eu creu gan y dysgwr<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi’i ddewisyd yn rhydd |

**L2PW5 Deall sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (J/650/0578)**

<table>
<tr><th colspan="5">Crynodeb o'r uned</th></tr>
<tr><td colspan="5">Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gweithiwr chwarae wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae. Mae wedi'i hanelu at weithwyr chwarae sydd heb gyfrifoldeb llawn ond sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gefnogi chwarae.</td></tr>
<tr><th colspan="5">Asesiad</th></tr>
<tr><td colspan="5">Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth.</td></tr>
<tr><td>Gorfodol</td><td>Wedi cyflawni/heb gyflawni eto</td><td>Lefel 2</td><td>3 chredyd</td><td>36 ODDA</td></tr>
</table>

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Deall polisïau sy'n gysylltiedig â chynnwys plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Esbonio polisïau safle gwaith chwarae mewn perthynas â chefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| 2. Deall rhwystrau rhag cael at brofiadau chwarae o ansawdd | 2.1 Amlinellu sut mae rhagdybiaethau, agweddau a gwahaniaethu yn atal rhai plant rhag gallu cael yn gyfartal |
| | 2.2 Disgrifio ffyrdd y gall y gweithiwr chwarae gael gwared ar rwystrau sy'n atal chwarae |
| 3. Deall gwaith partneriaeth | 3.1 Esbonio pwysigrwydd perthynas gadarnhaol â rhieni/gofalwyr wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 3.2 Esbonio pam mae'n bwysig cynnwys llais plant wrth gynllunio i ddiwallu eu hanghenion |
| | 3.3 Nodi **ffynonellau** o gymorth, arweiniad a gwybodaeth arbenigol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| 4. Deall sut i gefnogi plentyn ag anghenion ychwanegol ac anableddau i gymryd rhan mewn profiadau chwarae | 4.1 Esbonio sut y gall arwyddion chwarae gael eu mynegi gan blant pan fyddant yn cyfathrebu'n wahanol |
| | 4.2 Esbonio sut y gall oedolion effeithio ar brofiad chwarae plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 4.3 Disgrifio gwahanol **addasiadau** y gellid eu gwneud i gefnogi chwarae cynhwysol |
| | 4.4 Amlinellu pwysigrwydd ceisio **cymorth** mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'w arbenigedd a'i brofiad ei hun |

| **Ystod** |
|---|
| **3.** Deall gwaith partneriaeth |
| **3.3 Ffynonellau:**<br><br>Rhaid i'r dysgwr allu amlinellu o leiaf dwy ffynhonnell genedlaethol a dwy ffynhonnell leol o gymorth a gwybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion ychwanegol ac anableddau. |
| **4.** Deall sut i gefnogi plentyn ag anghenion ychwanegol ac anableddau i gymryd rhan mewn profiadau chwarae |
| **4.3 Addasiadau:**<br><br>Gallai'r addasiadau fod yn yr amgylchedd, yr adnoddau neu'r staff. Rhaid i'r dysgwyr allu disgrifio o leiaf tri addasiad gwahanol.<br><br>**4.4 Cymorth:**<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol mewn perthynas ag anghenion plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau, a gwybod sut i rannu pryderon gyda chydweithwyr fel sy'n briodol i'w lefel arbenigedd/profiad eu hunain. Dylai dysgwyr allu gwerthfawrogi arwyddocâd gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill. |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW57: Cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc anabl yn y safle gwaith chwarae<br>• SCDCCLD0209: Cefnogi plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol |

## L2PW6 Cefnogi perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae (K/650/0579)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithiwr chwarae i ddatblygu a chynnal perthynas â phlant yn ogystal â chefnogi perthnasoedd rhwng plant. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **24 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1.Yn deall sut i fagu perthynas â phlant | 1.1 Esbonio pam mae'n bwysig i weithiwr chwarae sefydlu perthynas gadarnhaol â phlant mewn safle gwaith chwarae |
| | 1.2 Disgrifio canlyniadau posibl i blant pan nad yw perthnasoedd wedi'u sefydlu |
| | 1.3 Disgrifio ffyrdd o helpu plant i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y safle gwaith chwarae |
| 2. Yn deall sut i gefnogi cyfathrebu â phlant | 2.1 Amlinellu gwahanol ddulliau **cyfathrebu** y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio ac sy'n briodol i oedran neu allu plentyn |
| | 2.2 Amlinellu pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod plant wedi deall yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu |
| | 2.3 Disgrifio sut mae'r gweithiwr chwarae yn ymwneud â phlant yn ôl eu hoedran a'u hanghenion unigol |
| | 2.4 Disgrifio sut i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfathrebu â phlant |
| | 2.5 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu gofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau neu gwynion |
| 3. Yn deall sut i gefnogi perthynas rhwng plant | 3.1 Disgrifio sut y gall plant ddatblygu a chynnal perthnasoedd trwy chwarae |
| | 3.2 Esbonio sut i gefnogi plant i werthfawrogi gwahaniaethau |
| | 3.3 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant werthfawrogi unigolrwydd, amrywiaeth a gwahaniaethau mewn pobl eraill |
| | 3.4 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant ddeall teimladau a safbwyntiau pobl eraill |
| 4. Yn deall pwysigrwydd plant yn gallu datrys gwrthdaro drostynt eu hunain | 4.1 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu datrys gwrthdaro drostynt eu hunain |
| | 4.2 Disgrifio pa gymorth y gall fod ei angen ar blant pan fydd gwrthdaro'n codi |
| | 4.3 Amlinellu strategaethau/technegau y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio i gefnogi plant i reoli eu hemosiynau, eu teimladau a'u hymddygiad |
| 5. Yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill | 5.1 Esbonio pam mae'n bwysig i weithwyr chwarae gael perthynas gadarnhaol ag **eraill** |
| | 5.2 Egluro pwysigrwydd cyfathrebu clir ag eraill |
| | 5.3 Nodi rhwystrau rhag perthynas gadarnhaol ag eraill |
| | 5.4 Amlinellu ffyrdd o oresgyn rhwystrau rhag cynnal perthynas gadarnhaol ag eraill |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 6. Yn gallu datblygu a chynnal perthynas â phlant | 6.1 Cyfathrebu'n effeithiol â phlant |
| | 6.2 **Rhyngweithio** â phlant mewn ffordd sy'n briodol i'r broses chwarae |
| | 6.3 Myfyrio ar ei ymarfer ei hun o ran datblygu a chynnal perthynas â phlant |
| 7. Yn gallu cefnogi plant i sefydlu a chynnal perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae | 7.1 Cefnogi plant i gyfathrebu ag eraill |
| | 7.2 Annog plant i ddeall unigolrwydd, amrywiaeth a gwahaniaethau pobl eraill |
| | 7.3 Annog plant i ddeall a pharchu teimladau a safbwyntiau pobl eraill |
| | 7.4 Cefnogi plant i allu gofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau neu gwynion |
| 8. Yn gallu cefnogi plant i ddatrys gwrthdaro drostynt eu hunain | 8.1 Annog plant i ddatblygu cytundebau grŵp am y ffordd y maent yn rhyngweithio ag eraill |
| | 8.2 Cefnogi plant i ddeall a rheoli eu hemosiynau, eu teimladau a'u hymddygiad |
| | 8.3 Cefnogi plant i ddelio â gwrthdaro drostynt eu hunain |
| | 8.4 Cynnig cymorth i blant y mae ymddygiad plant eraill wedi effeithio arnynt |
| 9. Yn gallu dangos gwaith partneriaeth ag eraill | 9.1 Cyfathrebu'n effeithiol ag eraill gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu |
| | 9.2 Cydweithio ag eraill i ddiwallu anghenion plant |
| | 9.3 Myfyrio ar ei ymarfer ei hun wrth weithio gydag eraill |

| **Ystod** |
|---|
| **2.** Deall sut i gefnogi cyfathrebu â phlant |
| **2.1 Cyfathrebu:**<br><br>Rhaid i'r dysgwr ddisgrifio o leiaf 3 dull gwahanol o gyfathrebu. |
| **5.** Deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill |
| **5.1 Eraill:**<br><br>Gallai'r rhain gynnwys timau eraill o fewn y sefydliad, neu asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill a allai weithio gyda'r tîm gwaith chwarae neu ochr yn ochr â'r tîm.<br><br>Er enghraifft:<br><br>• staff yr ysgol<br>• staff cynnal a chadw'r safle<br>• rhieni, gofalwyr a theuluoedd<br>• staff cymorth/gweithwyr allweddol un ac un<br>• swyddog datblygu gwaith chwarae<br>• asiantaethau diogelu<br>• awdurdodau lleol<br>• yr heddlu a thimau troseddu ieuenctid<br>• cydweithwyr |

| **Ystod** | |
|---|---|
| **6.** | Gallu datblygu a chynnal perthynas â phlant |
| **6.2** | **Rhyngweithio:** |

I arddangos, er enghraifft**:**

- dangos parch
- gwrando'n weithredol
- darparu rhesymau dros ymddygiad pan fo angen
- sicrhau bod yr hyn sydd wedi'i gyfathrebu wedi'i ddeall
- ymateb i gwestiynau plant
- trin plant gyda gonestrwydd, parch, tegwch ac ymddiriedaeth

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Rhaid asesu canlyniadau dysgu LO 7, 8 a 9 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasgau ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio
- disgrifiad myfyriol
- arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy'n briodol)
- cynhyrchion gwaith sy'n cael eu cynhyrchu gan y dysgwr, megis tystiolaeth o gyfathrebu ag eraill (er enghraifft, llyfr cyfathrebu staff, e-byst, llythyrau, cylchlythyrau)
- tystiolaeth ychwanegol i ategu arsylwi uniongyrchol neu drafodaeth broffesiynol megis adnoddau a grëwyd gan y dysgwr ar gyfer gweithgareddau i gefnogi plant i ddeall emosiynau a theimladau

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae

## L2PW7 Cefnogi chwarae plant (R/650/0580)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi chwarae plant. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **26 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gwybod sut i weithio gyda phlant i greu mannau chwarae | 1.1 Egluro pwysigrwydd plant yn archwilio cyfleoedd chwarae drostynt eu hunain |
| | 1.2 Disgrifio sut i gefnogi plant i addasu mannau chwarae |
| | 1.3 Disgrifio sut i gefnogi chwarae i ddod i ben mewn ffordd sy'n sensitif i lefel ymwneud y plant |
| 2. Yn deall ymyriadau yng nghyd-destun gwaith chwarae | 2.1 Disgrifio **ymyriad** o safbwynt gwaith chwarae |
| | 2.2 Amlinellu sut y gall ymyriadau gwaith chwarae wella'r broses chwarae |
| | 2.3 Esbonio pryd a sut y dylai'r gweithiwr chwarae ymyrryd i leihau risg gan barchu'r broses chwarae ac egwyddorion gwaith chwarae |
| 3. Yn gallu cefnogi plant i greu mannau chwarae | 3.1 Defnyddio arsylwadau ac adborth gan blant i nodi eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae |
| | 3.2 Cefnogi plant i greu mannau chwarae i ddiwallu eu hanghenion chwarae a'u dewisiadau |
| | 3.3 Cefnogi plant i addasu mannau chwarae pan ofynnir amdanynt gan y plentyn |
| 4. Yn gallu cefnogi chwarae plant | 4.1 Cynorthwyo gyda chynllunio a darparu **darnau rhydd** |
| | 4.2 Gallu rhoi cyfle i blant archwilio mannau chwarae sy'n briodol i'w gofynion unigol |
| | 4.3 Arsylwi ar chwarae plant, ymateb i arwyddion chwarae |
| | 4.4 Cymryd rhan mewn chwarae pan gaiff ei wahodd gan y plant drwy eu harwyddion |
| | 4.5 Dangos ymyriadau priodol sy'n gyson â'r ddamcaniaeth i gefnogi neu estyn y broses chwarae |
| | 4.6 Ymyrryd mewn chwarae plant pan fydd eu hiechyd, eu diogelwch neu eu lles yn gofyn am hynny |
| | 4.7 Cefnogwch blant i ddod â chwarae i ben, yn ôl lefel yr ymwneud a gofynion y sefydliad |
| | 4.8 Myfyrio ar ei rôl ei hun wrth gefnogi chwarae plant |

| **Ystod** |
|---|
| **2.** Deall ymyriadau yng nghyd-destun gwaith chwarae |
| **2.1 Ymyriad:**<br><br>Dylai hyn gynnwys amrywiaeth o ddulliau ymyrryd a nodwyd y gallai gweithiwr chwarae eu mabwysiadu i gefnogi plant i ddewis ac archwilio cyfleoedd iddyn nhw eu hunain. Mae dulliau ymyrryd cydnabyddedig mewn gwaith chwarae yn helpu'r gweithiwr chwarae i benderfynu pryd i ymuno yn chwarae plant a phryd i beidio ag ymuno. |

| **Ystod** |
|---|
| **4.** Yn gallu cefnogi chwarae plant |
| **4.1 Darnau rhydd:**<br><br>Dylid ystyried annog arferion cynaladwy, er enghraifft:<br><br>• ailgylchu<br>• ailddefnyddio<br>• lleihau<br>• trwsio |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid asesu canlyniadau dysgu LO3 a LO4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>**4.1** Efallai y bydd dysgwyr am gyfeirio at yr adnodd cynaladwyedd 'Materion Cynaladwyedd mewn Plentyndod Cynnar' sydd ar gael ar wefan yr NCFE.<br><br>**4.7** Efallai y bydd dysgwyr am ystyried rhai o'r pynciau canlynol wrth fyfyrio ar eu rôl eu hunain wrth gefnogi chwarae plant:<br><br>• ymateb i arwyddion chwarae i gefnogi profiadau chwarae gwell<br>• dulliau ymyrryd a ddefnyddir<br>• caniatáu i blant reoli eu chwarae<br>• ymuno â'r chwarae pan gânt wahoddiad<br>• y ffordd y daeth y chwarae i ben<br>• sut mae egwyddorion gwaith chwarae wedi'u gwreiddio mewn ymarfer<br>• sut mae plant yn defnyddio'r mannau chwarae ac adnoddau<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig<br>• arsylwi uniongyrchol ac yna sesiwn holi ac ateb yn ôl yr angen<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• disgrifiad myfyriol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd |

## L2PW8 Cefnogi iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (T/650/0581)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae, gan gynnwys delio â damweiniau, afiechydon ac argyfyngau. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **35 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer iechyd a diogelwch | 1.1 Disgrifio'r gofynion a'r canllawiau cyfreithiol ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae |
| 2. Yn deall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd a diogelwch | 2.1 Amlinellu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae, gan gynnwys gweithdrefnau oddi ar y safle |
| 3. Yn gallu cyfrannu at weithdrefnau iechyd a diogelwch | 3.1 Cyfrannu at weithdrefnau iechyd a diogelwch o fewn cylch gwaith ei rôl ei hun, gan gynnwys:<br>• damweiniau<br>• arwyddion salwch<br>• gweithdrefnau brys<br>• gweithdrefnau diogelwch<br>• ymarfer hylendid |
| | 3.2 Cefnogi plant i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain |
| 4. Yn deall peryglon mewn safle gwaith chwarae | 4.1 Nodi gwahanol **beryglon** a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae |
| | 4.2 Disgrifio sut i asesu ac ymateb i'r prif beryglon iechyd a diogelwch a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae ac oddi ar y safle |
| | 4.3 Amlinellu sefyllfaoedd lle mae'r gweithiwr chwarae:<br>• yn gallu delio â pherygl ei hun<br>• yn gorfod rhoi gwybod am berygl i **eraill** |
| 5. Yn gallu ymateb i beryglon mewn safle gwaith chwarae | 5.1 Dilyn gweithdrefnau i reoli risgiau a gyflwynir gan beryglon mewn safle gwaith chwarae yn y ffyrdd canlynol:<br>• cefnogi plant i ddelio â'r perygl<br>• ymateb i'r perygl ac adrodd amdano |
| | 5.2 Ymgynghori ag eraill os oes ansicrwydd ynglŷn â sut mae asesu ac ymdrin â pherygl |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 6. Yn gwybod sut i ymateb i anafiadau ac afiechydon yn y safle gwaith chwarae | 6.1 Amlinellu mathau cyffredin o anafiadau a salwch a all ddigwydd yn y safle gwaith chwarae |
| | 6.2 Disgrifio'r gweithdrefnau y dylai gweithiwr chwarae eu dilyn mewn ymateb i anafiadau ac afiechydon |
| 7. Yn gwybod sut i ymateb i argyfyngau yn y safle gwaith chwarae | 7.1 Disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd **argyfwng** a all ddigwydd yn y safle gwaith chwarae |
| | 7.2 Esbonio pam mae'n bwysig peidio â chynhyrfu, a chyfathrebu'n glir yn ystod argyfwng |
| | 7.3 Amlinellu cofnodion sydd eu hangen yn dilyn argyfwng a pham mae'n bwysig cwblhau'r rhain yn gywir |

**Ystod**

**4.** Deall peryglon mewn safle gwaith chwarae

**4.1 Peryglon:**

Dylid nodi o leiaf 5 perygl. Rhaid i ddysgwyr allu adnabod ystod o beryglon ar draws y categorïau canlynol:

- corfforol
- amgylcheddol
- chwarae ac ymddygiad
- diogelwch
- hylendid

**4.3 Eraill:**

Er enghraifft:

- aelodau'r tîm
- gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill

**7.** Gwybod sut i ymateb i argyfyngau yn y safle gwaith chwarae

**7.1 Argyfwng:**

Rhaid cynnwys:

- tân a gwacáu
- cloi adeilad
- tywydd eithafol
- diogelwch
- chwarae ac ymddygiad
- meddygol

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| Rhaid asesu LO3 a LO5 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• arsylwi uniongyrchol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae |

**L2PW9 Budd risg i blant (Y/650/0582)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithiwr chwarae i ddeall budd risg ac sy'n ei alluogi i wneud asesiadau budd risg yn y safle gwaith chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **25 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Deall budd risg | 1.1 Esbonio sut mae risg yn bwysig i ddatblygiad plant |
| | 1.2 Nodi enghreifftiau o risg a her mewn safle gwaith chwarae mewn perthynas ag oedran a chyfnod datblygiad plant |
| | 1.3 Diffinio'r termau:<br>• asesiad o fudd risg<br>• asesiad o fudd risg dynamig |
| | 1.4 Amlinellu pam mae'n bwysig i weithwyr chwarae gydbwyso gofynion iechyd a diogelwch a'r angen am risg a her |
| | 1.5 Disgrifio sut mae defnyddio asesiad o fudd risg dynamig yn effeithio'n gadarnhaol ar chwarae plant |
| | 1.6 Nodi pwysigrwydd plant yn rheoli risg iddyn nhw eu hunain |
| 2. Gallu cynnal asesiad o fudd risg | 2.1 Dangos sut i gwblhau asesiad o fudd risg |
| | 2.2 Arsylwi ar blant sy'n ymgymryd ag elfennau o risg |
| | 2.3 Cynorthwyo plant i reoli risg drostynt eu hunain |
| | 2.4 Ymyrryd mewn chwarae hunangyfeiriedig pan ddaw'r risg yn annerbyniol |
| | 2.5 Myfyrio ar ei ymarfer ei hun wrth wneud asesiad o fudd risg dynamig |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid asesu canlyniad dysgu LO2 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy'n briodol)<br>• disgrifiad myfyriol<br>• cynhyrchion gwaith tasg ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan y dysgwr<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae |

**L2PW10 Diogelu a lles plant mewn safle gwaith chwarae (A/650/0583)**

<table>
<tr><th colspan="5">Crynodeb o'r uned</th></tr>
<tr><td colspan="5">Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar weithwyr chwarae i ddiogelu a darparu ar gyfer lles plant mewn safle gwaith chwarae yn ogystal â rhai elfennau o ymarfer sydd eu hangen ar weithwyr chwarae i gefnogi plant i'w cadw'u hunain yn ddiogel.</td></tr>
<tr><th colspan="5">Asesiad</th></tr>
<tr><td colspan="5">Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth.</td></tr>
<tr><td>Gorfodol</td><td>Wedi cyflawni/heb gyflawni eto</td><td>Lefel 2</td><td>4 credyd</td><td>32 ODDA</td></tr>
</table>

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall y gofynion ar gyfer diogelu ac amddiffyn a lles plant mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Diffinio'r hyn a olygir wrth ddiogelu plant |
| | 1.2 Adnabod y canlynol mewn perthynas â diogelu plant:<br>• gofynion cyfreithiol<br>• polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol |
| | 1.3 Amlinellu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant |
| | 1.4 Amlinellu nodweddion cod ymarfer diogel ar gyfer amddiffyn aelodau o'r tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr |
| | 1.5 Esbonio deddfwriaeth mewn perthynas â chyfrinachedd |
| 2. Yn deall y gwahanol fathau o gam-drin sy'n gallu effeithio ar blant o gyd-destun gwaith chwarae | 2.1 Disgrifio gwahanol fathau o **gam-drin** |
| | 2.2 Disgrifio ffactorau a allai **gyfrannu** at y ffaith bod plentyn yn fwy agored i gamdriniaeth |
| | 2.3 Disgrifio sut y gellir mynegi arwyddion o gamdriniaeth trwy chwarae plant |
| | 2.4 Amlinellu risgiau i blant o ddefnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol |
| 3. Yn gwybod sut i ymateb i bryderon am les plant | 3.1 Adnabod pwy i gysylltu ag ef pan fydd pryderon diogelu am blant |
| | 3.2 Amlinellu gweithdrefnau cofnodi ac adrodd mewn perthynas â lles plentyn yn ei safle ei hun |
| | 3.3 Amlinellu'r gwahaniaethau rhwng:<br>• arsylwi<br>• ffaith<br>• gwybodaeth a gafwyd gan eraill<br>• barn |
| | 3.4 Esbonio pwysigrwydd adrodd am bryderon a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â lles plant, gan gynnwys iechyd meddwl |
| | 3.5 Crynhoi'r term 'chwythu'r chwiban' a sut mae hyn yn ymwneud â'ch rôl |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 4. Yn deall sut i gefnogi plant i gadw eu hunain yn ddiogel | 4.1 Egluro pwysigrwydd cefnogi plant i'w cadw'u hunain yn ddiogel |
| | 4.2 Nodi ble i gael cyngor, cymorth a rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelu plant |
| | 4.3 Disgrifio strategaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi plant i'w cadw'u hunain yn ddiogel:<br>• pan fyddant i ffwrdd odi wrth oedolion<br>• pan fyddant ar-lein<br>• pan fyddant gyda'u cyfoedion<br>• os ydyn nhw'n cael eu bwlio |
| 5. Yn gallu cefnogi plant i gadw eu hunain yn ddiogel | 5.1 Dangos sut mae magu ymwybyddiaeth plant am ddiogelwch personol yn ôl eu hoedran a'u hanghenion unigol |
| | 5.2 Cefnogi ymwybyddiaeth plant am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio dulliau **cyfathrebu electronig** |

| **Ystod** |
|---|
| **2.** Deall y gwahanol fathau o gam-drin sy'n gallu effeithio ar blant o gyd-destun gwaith chwarae |
| **2.1 Camdriniaeth:**<br><br>Rhaid i ddysgwyr allu disgrifio o leiaf 5 math o gam-drin.<br><br>Dylai'r ddarpariaeth hybu ymwybyddiaeth am y mathau canlynol o gam-drin:<br><br>• corfforol<br>• emosiynol<br>• rhywiol<br>• esgeulustod<br>• bwlio<br>• domestig<br>• cam-fanteisio ar blant<br>• rhwng cymheiriaid<br>• anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)<br>• salwch wedi'i ffugio a'i achosi gan eraill<br>• eithafiaeth a radicaleiddio<br><br>**2.2 Cyfrannu:**<br><br>Rhaid i ddysgwyr allu disgrifio o leiaf 4 ffactor a allai gyfrannu at y ffaith bod plentyn yn fwy agored i gamdriniaeth |
| **5.** Gallu cefnogi plant i'w cadw'u hunain yn ddiogel |
| **5.2 Cyfathrebu electronig:**<br><br>Er enghraifft:<br><br>• rhwydweithio cymdeithasol<br>• gemau ar-lein<br>• negeseuon e-bost<br>• ffonau symudol<br>• y rhyngrwyd |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
| --- |
| Rhaid asesu canlyniad dysgu LO5 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>**4.2** Dylai'r ddarpariaeth gynnwys hybu ymwybyddiaeth dysgwyr am ffynonellau dibynadwy o gymorth, cyngor a gwybodaeth bellach gan elusennau, cymdeithasau plant, awdurdodau lleol, neu hyd yn oed eu sefydliad eu hunain (er enghraifft, gall fod angen cymorth ar ddysgwyr os ydynt wedi ymdrin â digwyddiad diogelu, os oes angen cyngor arnynt ar brosesau a rhagor o wybodaeth am bynciau megis mathau o gam-drin, cefnogi teuluoedd neu fwlio).<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy'n briodol)<br>• disgrifiad myfyriol<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae<br>• SKAPW54: Nodi pryderon diogelu yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae |

**L2PW11 Cefnogi gwaith y tîm gwaith chwarae (D/650/0584)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel rhan o dîm gwaith chwarae effeithiol. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **21 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall gwahanol berthnasoedd gwaith | 1.1 Nodi gwahanol berthnasoedd gwaith sy'n cefnogi ymarfer tîm effeithiol |
| | 1.2 Nodi eraill a allai weithio gyda thîm gwaith chwarae |
| | 1.3 Amlinellu rôl eraill a allai weithio gyda thîm gwaith chwarae |
| | 1.4 Disgrifio sut y gall gwaith partneriaeth fod o fudd i blant mewn cyd-destun gwaith chwarae |
| 2. YN deall gwaith tîm effeithiol | 2.1 Esbonio ystyr gwaith tîm effeithiol |
| | 2.2 Amlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir o fewn tîm |
| | 2.3 Rhoi enghreifftiau o **fathau o faterion** a all achosi gwrthdaro o fewn tîm gwaith chwarae |
| | 2.4 Disgrifio ffyrdd o ddatrys gwrthdaro tîm |
| | 2.5 Disgrifio pryd y byddai angen cyfeirio gwrthdaro at uwch aelod o staff |
| 3. Yn deall sut i gyfrannu at wella arfer gwaith chwarae tîm | 3.1 Disgrifio manteision cyfarfodydd tîm |
| | 3.2 Esbonio ffyrdd o wella arfer gwaith chwarae tîm |
| 4. Yn gallu cefnogi gwaith tîm gwaith chwarae | 4.1 Cyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau ei hun o fewn y tîm |
| | 4.2 Cyfathrebu'n glir â chydweithwyr |
| | 4.3 Rhyngweithio ag eraill mewn ffordd sy'n cefnogi gwaith tîm effeithiol |
| | 4.4 Ymateb yn agored i wahaniaethau barn a safbwyntiau pobl eraill |
| | 4.5 Gofyn am gyngor a chymorth gan bobl berthnasol pan fydd angen |
| | 4.6 Cynnig awgrymiadau i wella ymarfer |
| | 4.7 Myfyrio ar rôl ei hun o fewn y tîm gwaith chwarae |

| **Ystod** |
|---|
| **2.** Deall gwaith tîm effeithiol |
| **2.3 Mathau o faterion:**<br><br>Mae angen o leiaf tair enghraifft o fathau o faterion a allai achosi gwrthdaro. |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid asesu canlyniad dysgu LO4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy'n briodol)<br>• disgrifiad myfyriol<br>• cynhyrchion gwaith megis cofnodion cyfarfod tîm yn cofnodi awgrymiadau a wnaed gan y dysgwr<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAALA52: Cyfrannu at waith eich tîm<br>• SKAPW61: Gwerthuso i wella eich arfer eich hun a gwaith eich tîm gwaith chwarae |

**L2PW12 Datblygu eich ymarfer eich hun (F/650/0585)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r elfennau o ymarfer sydd eu hangen ar weithwyr chwarae i fyfyrio ar eu hymarfer gwaith chwarae eu hunain a'i ddatblygu. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Gorfodol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **21 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall sut mae myfyrio yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) | 1.1 Amlinellu'r hyn a olygir wrth ymarfer myfyriol a sut mae'n ymwneud â'r egwyddorion gwaith chwarae. |
| | 1.2 Egluro pwysigrwydd ymarfer myfyriol a DPP ar gyfer arfer gorau |
| | 1.3 Disgrifio sut mae ei werthoedd, ei agweddau a'i brofiadau ei hun yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae a pham mae'n bwysig cydnabod a myfyrio ar hyn |
| | 1.4 Nodi sut y gall ymddygiad plant effeithio ar y gweithiwr chwarae |
| | 1.5 Esbonio pwysigrwydd arsylwadau chwarae ac adborth gan blant i wella ei ymarfer gwaith chwarae ei hun |
| 2. Yn gallu defnyddio ymarfer myfyriol mewn gwaith chwarae | 2.1 Defnyddio adborth gan blant ac eraill i fyfyrio ynghylch ei ymarfer gwaith chwarae ei hun |
| | 2.2 Myfyrio ar ei ymarfer ei hun mewn perthynas â'r egwyddorion gwaith chwarae |
| | 2.3 Crynhoi sut y gall gwelliannau yn ei ddatblygiad proffesiynol ei hun effeithio'n gadarnhaol ar y safle gwaith chwarae |
| | 2.4 Dangos sut i ddefnyddio arsylwadau o chwarae plant i lywio'i ymarfer gwaith chwarae ei hun |
| | 2.5 Rhannu ei arsylwadau a'i fyfyrdodau ei hun gyda chydweithwyr i lywio ymarfer. |
| 3. Yn gallu gwella ei ymarfer gwaith chwarae ei hun | 3.1 Gweithio gyda pherson priodol i:<br>• nodi ei gryfderau ei hun a meysydd lle gallai ymarfer gwaith chwarae wella<br>• casglu adborth<br>• cynllunio ffyrdd y gallai ymarfer gwaith chwarae wella<br>• nodi nodau a thargedau<br>• cynllunio datblygiad personol |
| | 3.2 Ymgymryd â DPP sy'n berthnasol i'w nodau a'i dargedau ei hun |
| | 3.3 Myfyrio ynghylch sut mae cyfleoedd DPP wedi gwella'i ymarfer ei hun |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| Mae cyfle i feini prawf asesu AC 2.1 a 2.2 gael eu croesgyfeirio neu eu bodloni gan un disgrifiad myfyriol os yw'r dysgwr yn cwmpasu’r ddau faen prawf yn llawn.<br><br>Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu’n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a rhaid cofnodi dyfarniad o gymhwysedd.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• disgrifiad myfyriol<br>• trafodaeth broffesiynol wedi’i chynllunio<br>• cynnyrch gwaith wedi’i gynhyrchu gan y dysgwr, megis:<br>    ○ cynlluniau datblygu<br>    ○ gosod targedau<br>    ○ dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT)<br>    ○ cofnodion o weithgareddau datblygiad proffesiynol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW61: Gwerthuso i wella eich arfer eich hun a gwaith eich tîm gwaith chwarae |

**L2PWOP1 Cynnal gwaith chwarae mewn ysgol (H/650/0586)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud gwaith chwarae mewn safle ysgol. Gall dysgwyr arddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau yn ystod y diwrnod ysgol yn ogystal â chlybiau cyn ac ar ôl ysgol sy'n cefnogi chwarae wedi ei ddewis yn rhydd. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **30 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr : | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gwybod sut i gynnal gwaith chwarae mewn safle ysgol | 1.1 Amlinellu pwysigrwydd chwarae mewn safleoedd ysgol |
| | 1.2 Disgrifio sut y gall chwarae wella profiadau ysgol i blant |
| | 1.3 Amlinellu'r gwahaniaethau rhwng chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd a gweithgareddau chwareus a all ddigwydd mewn safle ysgol |
| | 1.4 Amlinellu gwrthdaro posibl rhwng gwaith chwarae ac agenda'r ysgol |
| | 1.5 Amlinellu pwysigrwydd bod plant yn deall y disgwyliadau gwahanol ynglŷn â defnyddio mannau a rennir |
| | 1.6 Egluro pwysigrwydd diogelu'r man chwarae |
| | 1.7 Disgrifio sut i hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae mewn safle ysgol |
| 2. Yn gallu sefydlu man chwarae o fewn safle ysgol | 2.1 Nodi mannau chwarae hygyrch |
| | 2.2 Cael caniatâd gan eraill i ddefnyddio adnoddau |
| | 2.3 Hyrwyddo chwarae plant mewn safle ysgol |
| 3. Yn gallu hwyluso chwarae hunangyfeiriedig plant mewn safle ysgol | 3.1 Helpu plant ac **oedolion** i ddeall ble mae'r man chwarae yn bodoli |
| | 3.2 Annog plant i fod yn berchen ar y man chwarae a bod yn gyfrifol amdano |
| | 3.3 Diogelu'r broses chwarae rhag torri ar draws ac ymyriadau gan eraill |
| | 3.4 Rhoi adborth am brofiadau chwarae'r plant i staff yr ysgol |
| | 3.5 Myfyrio ar ei ymarfer gwaith chwarae ei hun mewn safle ysgol |

| **Ystod** |
|---|
| **3.** Gallu hwyluso chwarae hunangyfeiriedig plant mewn safle ysgol |
| **3.1 Oedolion:**<br><br>Gall hyn gynnwys:<br><br>• gweithwyr chwarae eraill<br>• staff yr ysgol, fel:<br>    o athrawon<br>    o cynorthwywyr addysgu<br>    o rheolwr y safle<br>    o ymwelwyr allanol/gweithwyr proffesiynol |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| Rhaid cynnal canlyniadau dysgu LO2 a LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn. Gallai hyn fod yn ystod y diwrnod ysgol, mewn clybiau cyn neu ar ôl ysgol, neu yn ystod cynlluniau chwarae gwyliau mewn safle ysgol. Ni chaniateir efelychu.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• disgrifiad myfyriol<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb lle bo'n briodol)<br>• tystiolaeth tyst arbenigol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• TDASTL15: Cefnogi chwarae plant a phobl ifanc |

**L2PWOP2 Cyfrannu at ddarparu bwyd a diod yn y safle gwaith chwarae (J/650/0587)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y dysgwr i gyfrannu at ddarparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **30 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr : | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gwybod sut i gyfrannu at ddarparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Amlinellu gofynion cyfreithiol perthnasol yn ymwneud â storio, paratoi a gweini bwyd |
| | 1.2 Esbonio effaith bwyd a diod ar chwarae plant |
| | 1.3 Nodi'r mathau o fwyd a diod sy'n gyson â bwyta'n iach |
| | 1.4 Amlinellu gwahanol ofynion dietegol sydd gan rai plant efallai |
| | 1.5 Esbonio pwysigrwydd plant yn cymryd rhan yn y broses o ddewis, paratoi, gweini a chlirio bwyd a diod |
| | 1.6 Amlinellu sut y gellir defnyddio bwyd fel adnodd chwarae a'r materion sy'n gysylltiedig â hyn |
| 2. Yn gallu cyfrannu tuag at ddarparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae | 2.1 Crynhoi polisïau'r sefydliad ei hun ynghylch darparu bwyd a diod iach a maethlon |
| | 2.2 Nodi anghenion gofynion dietegol penodol plant yn ei safle ei hun |
| | 2.3 Defnyddio canllawiau sefydliadol i ddarparu dewisiadau bwyd a diod i blant |
| | 2.4 Asesu risg y broses o gynnwys plant wrth baratoi bwyd a diod |
| | 2.5 Cynnwys plant yn y prosesau paratoi, gweini a chlirio bwyd a diod, os ydynt yn dymuno gwneud hynny |
| | 2.6 Esbonio sut mae dulliau storio a pharatoi bwyd yn ei safle ei hun yn bodloni gofynion sefydliadol a chyfreithiol |
| | 2.7 Bod yn ymatebol i blant y gall fod angen cymorth arnynt gyda bwyd neu ddiod |
| | 2.8 Annog a chefnogi plant i fwyta'n iach |

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO2 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasgau ysgrifenedig y dysgwr
- disgrifiadau myfyriol
- arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb yn ôl yr angen)
- trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio
- cynhyrchion gwaith fel asesiad risg

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW58: Darparu bwyd a diod yn y safle gwaith chwarae

**L2PWOP3 Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae (K/650/0588)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae. Bydd dysgwyr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i sefydlu perthnasoedd effeithiol a chefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn ogystal ag ymdrin â materion neu gwynion. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **6 chredyd** | **45 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Deall sut i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd | 1.1 Amlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.2 Disgrifiwch ystod o ffyrdd o gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.3 Amlinellu gwahanol fathau o rwystrau cyfathrebu y gallai gweithiwr chwarae ddod ar eu traws wrth weithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.4 Disgrifio strategaethau i oresgyn anawsterau cyfathrebu gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.5 Egluro pwysigrwydd gwrando ar rieni, gofalwyr a theuluoedd a deall eu barn |
| | 1.6 Disgrifio pwysigrwydd cyfrinachedd |
| | 1.7 Disgrifio sut mae cydbwyso'r angen i barchu gwybodaeth gyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd am les y plentyn |
| 2. Deall sut i gyfrannu at berthynas waith â rhieni, gofalwyr a theuluoedd | 2.1 Esbonio pam mae perthynas waith dda â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn bwysig i waith chwarae effeithiol |
| | 2.2 Nodi ystod o faterion sy'n effeithio ar rieni, gofalwyr a theuluoedd gan gynnwys pwysau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd |
| | 2.3 Nodi amrywiaeth o'r anghenion a'r disgwyliadau a allai fod gan rieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.4 Esbonio sut mae cydbwyso anghenion a disgwyliadau rhieni, gofalwyr a theuluoedd gyda gweithdrefnau a pholisïau cytunedig y sefydliad a hawliau'r plentyn |
| | 2.5 Disgrifio sefyllfaoedd nodweddiadol a allai achosi gwrthdaro wrth weithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.6 Disgrifio sut y gallai'r gweithiwr chwarae ymdrin â gwrthdaro â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.7 Amlinellu gweithdrefn gwyno'r sefydliad ei hun |
| 3. Gwybod sut i gynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 3.1 Nodi mathau o gyfleoedd y gallai rhieni, gofalwyr a theuluoedd gymryd rhan ynddynt yn y safle gwaith chwarae |
| | 3.2 Disgrifio polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 4. Yn gallu cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd a chyfrannu at berthynas waith â hwy | 4.1 Cychwyn perthynas â rhieni, gofalwyr a theuluoedd mewn ffordd sy'n eu helpu i deimlo bod croeso iddynt a'u bod wedi'u gwerthfawrogi yn y safle gwaith chwarae |
| | 4.2 Cynnal sgyrsiau gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n cefnogi perthynas effeithiol |
| | 4.3 Arddangos **gwahanol fathau o ddulliau cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd** |
| | 4.4 Cyfnewid gwybodaeth gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion hwy ac anghenion plant |
| | 4.5 Ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau a wnaed gan rieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 4.6 Dangos sut i ddilyn gweithdrefnau cyfrinachedd wrth weithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 4.7 Dangos bod amrywiaeth ac unigoliaeth rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu gwerthfawrogi |
| | 4.8 Ymateb yn broffesiynol i faterion neu gwynion gan rieni, gofalwyr a theuluoedd yn ôl gweithdrefnau sefydliadol |
| | 4.9 Myfyrio ynghylch ei rôl ei hun o ran gweithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| 5. Yn gallu cefnogi cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 5.1 Annog rhieni, gofalwyr a theuluoedd i ddeall gwerthoedd a pholisïau'r safle gwaith chwarae a chwarae a ddewiswyd yn rhydd gan blant |
| | 5.2 Rhoi gwybod i rieni, gofalwyr a theuluoedd am y mathau o gyfleoedd sy'n bodoli iddynt gymryd rhan yn y safle gwaith chwarae |
| | 5.3 Cefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rhan yn y safle gwaith chwarae gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny |

**Ystod**

**4.** Gallu cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd a chyfrannu at berthynas waith â hwy

**4.3 Gwahanol fathau o ddulliau cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd**

Gallent gynnwys:

- geiriol
- electronig
  - neges destun
  - e-bost
  - platfform negeseuon grŵp
- ysgrifenedig:
  - llythyr
  - cylchlythyr
  - hysbysfwrdd/arddangosiad

Rhaid bod y dysgwr yn gallu arddangos o leiaf dau wahanol fath o ddull cyfathrebu.

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| Rhaid asesu LO4 a LO5 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>**3.2** Dylai dysgwyr gael dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau wrth gynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae, megis:<br><br>• cynefino gwirfoddolwyr<br>• cyfrinachedd<br>• peidio â'u gadael ar eu pen eu hunain gyda phlant<br>• lefelau ymgysylltu, argyfyngau<br><br>**4.9** Gellir caniatáu efelychiad neu astudiaeth achos os nad oes tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol yn codi yn ystod y cymhwyster.<br><br>**LO5** Os nad oes tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar gael, dylid cyflwyno astudiaeth achos neu senario i'r dysgwr er mwyn iddo ddangos yn llawn sut y byddai'n cefnogi cyfranogiad rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae. Rhaid i'r aseswr sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â'r holl feini prawf asesu.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig y dysgwr<br>• disgrifiad myfyriol<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb yn ôl yr angen)<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• tystiolaeth tystion arbenigol<br>• cynhyrchion gwaith y mae'r dysgwr wedi'u cynhyrchu neu gyfrannu atynt, megis:<br>  ○ cyfathrebu â rhieni<br>  ○ cyfathrebu electronig<br>  ○ llythyrau, cylchlythyrau<br>  ○ taflenni gwybodaeth<br>  ○ hysbysfyrddau<br>• efelychu (AC 4.9 yn unig)<br>• astudiaeth achos/senario (AC 4.9, 5.1–5.3 yn unig)<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae |

## L2PWOP4 Sefydlu a hwyluso gwaith chwarae mewn lleoliad amhenodedig (L/650/0589)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn cynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud gwaith chwarae mewn safle amhenodedig. Mae'n ymwneud â chynnal gwaith chwarae a chefnogi chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd mewn mannau a safleoedd nad gwaith chwarae mo'u prif bwrpas (er enghraifft, ysbytai, canolfannau arbenigol, canolfannau awyr agored neu ganolfannau chwaraeon a hamdden).<br><br>Mae'r uned hon ar gyfer gweithwyr chwarae sydd heb gyfrifoldeb dros eraill, ond sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gefnogi chwarae. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 3** | **6 chredyd** | **45 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gwybod sut i wneud gwaith chwarae mewn safle amhenodedig | 1.1 Crynhoi amrywiaeth o **safleoedd amhenodedig** lle gallai gwaith chwarae ddigwydd |
| | 1.2 Amlinellu polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i ddarparu cyfleoedd i chwarae mewn safleoedd amhenodedig |
| | 1.2 Disgrifio sut y gall chwarae wella profiadau i blant mewn gwahanol safleoedd |
| | 1.4 Cymharu'r gwahaniaethau rhwng gwaith chwarae a gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae a all ddigwydd mewn safleoedd amhenodedig |
| | 1.5 Disgrifio gwrthdaro posibl a all ddigwydd rhwng y broses chwarae ac **agendâu eraill** mewn safle amhenodedig |
| | 1.6 Esbonio strategaethau i ddatrys gwrthdaro rhwng y broses chwarae ac agendâu eraill |
| | 1.7 Gwahaniaethu rhwng rôl y gweithiwr chwarae a staff eraill sy'n gweithio mewn lleoliadau amhenodedig |
| | 1.8 Esbonio pam mae'n bwysig bod plant yn deall y gall disgwyliadau gwahanol gael eu rhoi ar y ffordd y maent yn defnyddio mannau a rennir |
| | 1.7 Disgrifio ffyrdd o hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae mewn safle amhenodedig |
| 2. Yn gallu paratoi man chwarae o fewn safle amhenodedig | 2.1 Nodi meysydd, adnoddau ac offer sydd wedi'u cytuno â phobl briodol yn y safle amhenodedig i ddarparu cyfleoedd am chwarae sy'n hunangyfeiriedig ac yn cael ei ddewis yn rhydd |
| | 2.2 Rhyngweithio â phlant i ganfod eu hanghenion a'u dewisiadau ar gyfer eu chwarae |
| | 2.3 Cefnogi plant ac **eraill** i ddeall ble mae'r man chwarae yn bodoli |
| | 2.4 Esbonio i blant ac eraill y gwahaniaeth, o ran disgwyliadau, rhwng y man chwarae a mannau eraill o fewn y safle amhenodedig |
| | 2.5 Dangos sut i ddiogelu'r man chwarae sydd wedi'i greu rhag ymyriadau a thorri ar draws gan eraill |
| | 2.6 Hyrwyddo chwarae plant o fewn safle amhenodedig |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 3. Yn gallu hwyluso gwaith chwarae mewn safle amhenodedig | 3.1 Ffurfio cytundebau gyda'r plant am y ffordd y caiff y man ei ddefnyddio, yn unol â'r egwyddorion gwaith chwarae a pholisïau'r sefydliad |
| | 3.2 Annog plant i fod yn berchen ar y man chwarae a grëwyd a bod yn gyfrifol amdano |
| | 3.3 Ymateb i unrhyw wrthdaro neu faterion a all godi ynghylch mannau a rennir mewn ffordd a fydd yn cynnal perthynas broffesiynol |
| | 3.4 Casglu adborth gan blant ac eraill am waith chwarae mewn safle amhenodedig |
| | 3.5 Myfyrio ynghylch sut y bodlonwyd anghenion a dewisiadau plant mewn safle amhenodedig |

**Ystod**

**1.** Gwybod sut i gynnal gwaith chwarae mewn safle amhenodedig

**1.1 Safleoedd amhenodedig:**

Yw'r safleoedd hynny nad gwaith chwarae mo'u hunig bwrpas, ond lle gallai gwaith chwarae ddigwydd.

Er enghraifft:

- safleoedd addysgol
- safleoedd iechyd
- safleoedd hamdden

**1.5 Agendâu eraill:**

Yw'r rheini sy'n berthnasol i brif bwrpas y safle.

Er enghraifft:

- mae prif agenda safle addysgol yn seiliedig ar gwricwlwm
- mae prif agenda safle ysbyty yn ymwneud â ffocws iechyd a meddygol
- gallai prif agenda safle hamdden fod yn weithgareddau chwaraeon a hamdden, dan gyfarwyddyd neu wedi'u harwain gan oedolion

**2.** Gallu paratoi man chwarae o fewn safle amhenodedig

**2.3 Eraill:**

Er enghraifft:

- gweithwyr chwarae
- staff eraill
- ymwelwyr
- rhieni/gofalwyr

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|---|
| Rhaid asesu LO2 a LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasg ysgrifenedig<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb os oes angen)<br>• cynhyrchion gwaith y mae'r dysgwr wedi'u cynhyrchu neu gyfrannu atynt, megis:<br>  ○ cofnodion o gytundebau<br>  ○ cofnodion o wrthdaro<br>  ○ cofnodion adborth<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• disgrifiad myfyriol<br>• tystiolaeth tystion arbenigol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW63: Sefydlu a hwyluso chwarae mewn safle gwaith chwarae amhenodedig (L/650/0589) |

**L2PWOP5 Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol (T/650/0590)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio, paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol ar gais plant. Gall hyn fod yn gyfle chwarae unigol y gofynnwyd amdano gan un plentyn neu gyfleoedd newydd y gofynnwyd amdanynt gan sawl plentyn. Gall plant ddewis bod yn rhan o'r cynllunio neu beidio, a bydd cymryd rhan bob amser yn ddewisol. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 3** | **6 chredyd** | **45 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall egwyddorion cynllunio a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol ar gais plant | 1.1 Disgrifio rhesymau dros gynllunio cyfleoedd chwarae penodol |
| | 1.2 Disgrifio sut mae'r egwyddorion gwaith chwarae yn cael eu cynnal yng nghyd-destun cyfle chwarae penodol |
| | 1.3 Amlinellu pwysigrwydd cynnwys plant wrth gynllunio a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol |
| | 1.4 Esbonio ffyrdd o gynnwys plant yn y broses gynllunio |
| | 1.5 Nodi'r rhwystrau posibl y gall plant ddod ar eu traws wrth gael at gyfleoedd chwarae penodol |
| | 1.5 Egluro sut mae goresgyn rhwystrau posibl y gall plant ddod ar eu traws wrth gael at gyfleoedd chwarae penodol |
| | 1.7 Esbonio pwysigrwydd dull cynhwysol o gynllunio a gweithredu cyfleoedd chwarae penodol |
| | 1.8 Esbonio pryd efallai na fydd cyfle chwarae penodol yn briodol |
| 2. Yn gwybod sut i gynllunio a pharatoi cyfleoedd chwarae penodol ar gais plant | 2.1 Egluro pwysigrwydd seilio cynlluniau ar anghenion a dewisiadau plant |
| | 2.2 Disgrifio'r broses gynllunio wrth baratoi cyfleoedd chwarae penodol |
| | 2.3 Esbonio pam mae gofyn cael caniatâd ar gyfer cyfleoedd chwarae penodol |
| | 2.4 Egluro pwysigrwydd datblygu cytundebau grŵp ar gyfer cyfleoedd chwarae penodol |
| | 2.5 Disgrifio sut i weithio gydag eraill i ddatblygu cytundebau grŵp ar gyfer cyfleoedd chwarae penodol |
| | 2.6 Amlinellu pam mae'n bwysig sicrhau ei gymhwysedd corfforol ac emosiynol ei hun yn briodol i gyfle chwarae penodol |
| 3. Yn gwybod sut i hwyluso cyfle chwarae penodol ar gais plant | 3.1 Esbonio'r broses o hwyluso cyfleoedd penodol yng nghyd-destun dulliau ymyrryd |
| | 3.2 Disgrifio sut i leihau'r effaith ar yr amgylchedd wrth hwyluso cyfle chwarae penodol |
| | 3.3 Disgrifio'r lefelau goruchwylio sydd eu hangen ar gyfer ystod o gyfleoedd chwarae penodol |
| 4. Yn gallu cynllunio cyfle chwarae penodol | 4.1 Nodi syniadau ar gyfer cyfle chwarae penodol sy'n briodol i'r safle gwaith chwarae |
| | 4.2 Cynnwys y plant wrth gynllunio'r cyfle os ydynt yn dewis |
| | 4.3 Creu **cynllun** ar gyfer y cyfle chwarae penodol a ddewiswyd |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 5. Yn gallu paratoi cyfle chwarae penodol | 5.1 Dewis adnoddau i'r cyfle chwarae, cael gafael arnynt a sicrhau eu diogelwch |
| | 5.2 Sicrhau bod caniatâd priodol wedi'u cael mewn perthynas â'r cyfle chwarae |
| 6. Yn gallu gweithredu cyfle chwarae penodol | 6.1 Cyflwyno'r cyfle chwarae gan ddefnyddio dulliau cynhwysol |
| | 6.2 Cynnwys dim ond y rhai sy'n dymuno cymryd rhan cyhyd ag y maent am gymryd rhan |
| | 6.3 Ymgymryd â **rôl briodol** yn y cyfle chwarae, gan addasu'r rôl os yw'n briodol |
| | 6.4 Addasu'r cynllun i ymateb i anghenion a dewisiadau unigol plant |
| | 6.5 Myfyrio ynghylch y cyfle chwarae penodol mewn perthynas â'r egwyddorion gwaith chwarae |

**Ystod**

**4.** Gallu cynllunio cyfle chwarae penodol

**4.3 Cynllun:**

Rhaid cynnwys:

- rhesymau dros ymgymryd â'r cyfle
- ystyriaethau iechyd a diogelwch
- anghenion a dewisiadau plant
- cynhwysiant
- adnoddau angenrheidiol
- caniatâd sy'n ofynnol
- dulliau a chynnwys
- hapddigwyddiadau
- monitro
- gwerthuso

**6.** Gallu gweithredu cyfle chwarae penodol

**6.3 Rôl briodol:**

Gall gynnwys:

- arsylwi
- arwain
- cymryd rhan
- hwyluso

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Gellir ystyried LO1 a LO2 fel un dasg a gall fod cyfleoedd am asesu cyfannol.

Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a rhaid cofnodi dyfarniad o gymhwysedd.

Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu 4, 5 a 6 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

**3.3** Rhaid i'r dysgwr ddisgrifio lefelau goruchwylio ar gyfer o leiaf tri chyfle chwarae penodol.

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb lle bo'n briodol)<br>• disgrifiad myfyriol<br>• cynnyrch gwaith wedi'i gynhyrchu gan y dysgwr, megis:<br>    o cofnodion cynllunio<br>    o tystiolaeth o ganiatâd<br>    o asesiad risg cyfle chwarae penodol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW51: Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol |

## L2PWOP6 Cefnogi teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae (Y/650/0591)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y dysgwr i gefnogi teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae. Gall hyn gynnwys teithiau oddi ar y safle neu deithio yn ôl ac ymlaen i'r safle gwaith chwarae. Mae hefyd yn ymdrin â'r pethau y dylid eu hystyried wrth gynllunio trefniadau teithio. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **6 chredyd** | **45 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae | 1.1 Disgrifio gofynion cyfreithiol a pholisïau'r sefydliad ar gyfer teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae |
| | 1.2 Disgrifio trefniadau a pharatoadau y mae angen eu gwneud ar gyfer gwahanol **fathau o siwrneiau** oddi ar y safle |
| | 1.3 Amlinellu pwysigrwydd darparu gwybodaeth gyfoes a chywir i blant ac **eraill** am drefniadau teithio mewn da bryd |
| | 1.4 Nodi gwybodaeth y dylid ei chasglu am blant |
| | 1.5 Esbonio pam mae'n bwysig bod yr wybodaeth a gedwir am blant yn gywir |
| 2. Yn deall sut i gefnogi teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae | 2.1 Amlinellu pwysigrwydd dilyn cynlluniau y cytunwyd arnynt |
| | 2.2 Nodi materion a allai ddigwydd wrth gefnogi teithio plant |
| | 2.3 Disgrifio trefniadau hapddigwyddiad sy'n briodol ar gyfer materion a all godi pan fydd plant yn teithio |
| | 2.4 Disgrifio sut i gytuno ar ffyrdd o gadw'n ddiogel wrth deithio gyda phlant |
| | 2.5 Disgrifio teimladau ac ymddygiad y gall plant gael profiad ohonynt wrth symud rhwng amgylcheddau |
| | 2.6 Amlinellu sut y gallai'r gweithiwr chwarae gefnogi teimladau ac ymddygiad plant ynglŷn â theithio |
| 3. Yn gallu cefnogi dyfodiad ac ymadawiad plant wrth deithio y tu allan i'r safle gwaith chwarae | 3.1 Casglu gwybodaeth am y plant i'w gollwng/eu casglu |
| | 3.2 Cyfleu trefniadau i staff eraill pan fydd yn berthnasol |
| | 3.3 Hysbysu plant am faterion iechyd a diogelwch yn ymwneud â chyrraedd a gadael y safle gwaith chwarae |
| | 3.4 Dilyn **gweithdrefnau sefydliadol** pan fydd y plant yn dod ac yn ymadael |
| | 3.5 Cefnogi teimladau ac ymddygiad plant ynghylch teithio |
| | 3.6 Ymateb i faterion sy'n codi pan fydd plant yn dod ac yn ymadael |
| 4. Yn gallu cefnogi plant wrth deithio'r tu allan i'r safle gwaith chwarae | 4.1 Cefnogi plant i ddilyn ffyrdd cytunedig o gadw'n ddiogel wrth deithio |
| | 4.2 Cynnig cymorth i blant pan fydd ei angen neu pan ofynnir amdano yn ystod teithio |
| | 4.3 Annog plant i ofalu am eu heiddo |
| | 4.4 Myfyrio ynghylch cefnogi teithio i blant y tu allan i'r safle gwaith chwarae |

| **Ystod** |
|---|
| **1.** Deall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae |
| **1.2 Mathau o siwrneiau:**<br><br>Gallent gynnwys:<br><br>• ar droed<br>• ar gludiant cyhoeddus<br>• defnyddio cerbyd preifat neu gerbyd wedi'i logi<br><br>**1.3 Eraill:**<br><br>Gallent gynnwys:<br><br>• staff<br>• gwirfoddolwyr neu ymwelwyr eraill<br>• rhieni/gofalwyr |
| **3.** Gallu cefnogi plant wrth ddod ac ymadael wrth deithio y tu allan i'r safle gwaith chwarae |
| **3.4 Gweithdrefnau sefydliadol:**<br><br>Gallent gynnwys:<br><br>• goruchwylio plant wrth ddod ac ymadael<br>• cymarebau<br>• sicrhau y cyfrifwyd am bob plentyn<br>• delio ag unrhyw faterion pan fydd plant yn cyrraedd neu'n ymadael<br>• pwyntiau cyfarfod dynodedig<br>• caniatâd<br>• asesiadau risg |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Rhaid asesu canlyniadau dysgu LO3 a LO4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• dasgau ysgrifenedig<br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy'n briodol)<br>• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio<br>• disgrifiad myfyriol<br>• cynhyrchion gwaith y mae'r dysgwr wedi'u cynhyrchu neu gyfrannu atynt, megis:<br>    ○ cofnodion cynllunio<br>    ○ asesiadau risg<br>    ○ ffurflenni caniatâd<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW60: Cefnogi plant a phobl ifanc wrth deithio'r tu allan i'r safle gwaith chwarae<br>• SKAOP15: Trefnu a goruchwylio teithio |

### L2PWOP7 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (A/650/0592)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau gweithiwr chwarae wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae. Y ffocws yw meithrin ymhellach yr wybodaeth bresennol a gafwyd drwy'r unedau gorfodol.<br><br>Mae wedi'i hanelu at weithwyr chwarae sydd heb gyfrifoldeb llawn ond sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gefnogi chwarae. Gall gweithwyr chwarae fod yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn safle arbenigol, yn rhoi cymorth un ac un mewn safle gwaith chwarae neu'n gweithio ochr yn ochr ag eraill i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **4 credyd** | **30 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gallu cynnal gwaith chwarae gyda phlant ag anghenion ychwanegol ac anableddau | 1.1 Canfod anghenion a dewisiadau chwarae penodol plant |
| | 1.2 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau i archwilio'r safle gwaith chwarae |
| | 1.3 Cydnabod a dehongli arwyddion chwarae gan blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 1.4 Cefnogi chwarae ynghylch diddordebau a galluoedd plant unigol ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 1.5 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau i wneud dewisiadau |
| | 1.6 Addasu adnoddau a'r amgylchedd i estyn posibiliadau chwarae i blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 1.7 Defnyddio ymyriadau priodol i ganiatáu i blentyn neu berson ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau gymryd rhan mewn chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd ac sy'n hunangyfeiriedig |
| | 1.8 Cefnogi chwarae i ddod i ben mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion penodol plant |
| 2. Yn gallu myfyrio ynghylch ymarfer chwarae cynhwysol | 2.1 Adolygu'r ddarpariaeth chwarae mewn perthynas â chynhwysiant |
| | 2.2 Myfyrio ynghylch ymarfer chwarae cynhwysol |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
|---|
| Dylai'r ddarpariaeth a'r asesiad fodloni'r gofynion penodol fel sy'n berthnasol i'r gwledydd cartref.<br><br>Rhaid asesu LO1 a LO2 mewn amgylchedd gwaith go iawn.<br><br>Mae cyfleoedd i groesgyfeirio LO1 a LO2 o fewn LO6 uned L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576).<br><br>Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a rhaid cofnodi dyfarniad o gymhwysedd. |

| **Canllawiau cyflwyno ac asesu** |
| --- |
| Gellid asesu'r uned hon trwy:<br><br>• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb fel sy’n briodol)<br>• disgrifiad myfyriol<br>• trafodaeth broffesiynol<br><br>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW57: Cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc anabl yn y safle gwaith chwarae<br>• SCDCCLD0209: Cefnogi plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol |

**L2PWOP8 Cefnogi chwarae y tu allan (D/650/0593)**

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw archwilio manteision chwarae y tu allan i iechyd cyfannol plant. Bydd rôl y gweithiwr chwarae yn cael ei gwreiddio drwy gydol yr uned hon, ac mae unrhyw ganlyniad dysgu (LO) sy'n dechrau gyda 'gallu' yn gofyn am dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o safle gwaith chwarae go iawn. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **30 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall manteision chwarae y tu allan i iechyd cyfannol plentyn | 1.1 Disgrifio sut mae chwarae y tu allan yn fanteisiol i blant |
| | 1.2 Nodi rhwystrau rhag chwarae y tu allan |
| | 1.3 Crynhoi manteision meysydd chwarae antur ar gyfer iechyd cyfannol plant |
| 2. Yn deall rôl y gweithiwr chwarae yn ystod chwarae y tu allan | 2.1 Egluro rôl y gweithiwr chwarae yn ystod chwarae y tu allan |
| | 2.2 Myfyrio ynghylch canfyddiadau ymchwil o ran manteision chwarae y tu allan |
| 3. Yn gallu cefnogi chwarae y tu allan | 3.1 Myfyrio ynghylch sut mae ei safle gwaith chwarae ei hun yn darparu chwarae y tu allan |
| | 3.2 Dadansoddi cofnodion arsylwadol gan ystyried sut mae plant yn chwarae y tu allan |
| | 3.3 Gwneud argymhellion i wella ei ymarfer ei hun mewn perthynas â chwarae y tu allan |
| 4. Yn deall dylanwadau ar ganfyddiadau am blant yn chwarae y tu allan | 4.1 Disgrifio dylanwad y cyfryngau yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a diogelu ar gael at chwarae y tu allan |
| | 4.2 Amlinellu ffyrdd y gall y gweithiwr chwarae fod yn eiriolwr cadarnhaol dros chwarae y tu allan neu ei hyrwyddo |
| | 4.3 Crynhoi canfyddiadau allweddol o astudiaeth o blant yn chwarae y tu allan |

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

**1.1** Dylai'r dysgwr allu disgrifio pedair mantais chwarae y tu allan i blant.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- myfyrdod
- arsylwi uniongyrchol
- trafodaeth broffesiynol

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
| --- |
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):<br><br>• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd<br>• SKAPW63: Sefydlu a hwyluso chwarae mewn safle gwaith chwarae amhenodedig (L/650/0589) |

## L2PWOP9 Cefnogi plant i ddatblygu hunaniaeth a lles (F/650/0594)

| **Crynodeb o'r uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod yr uned hon yw archwilio sut y gellir cefnogi hunaniaeth plant a'u hymdeimlad o les drwy chwarae. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant i ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol, gwella eu hunan-barch a gwella eu hunanddibyniaeth. Mae canlyniadau dysgu sy'n dechrau gyda 'gallu' yn gofyn bod asesiad yn deillio o safle gwaith chwarae go iawn. | | | | |
| **Asesiad** | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| **Dewisol** | **Wedi cyflawni/heb gyflawni eto** | **Lefel 2** | **3 chredyd** | **30 ODDA** |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yndeall pwysigrwydd hunaniaeth er lles emosiynol | 1.1 Amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad hunaniaeth plant |
| | 1.2 Esbonio rôl hunaniaeth ar gyfer lles emosiynol |
| | 1.3 Nodi ffyrdd y gall hunaniaeth effeithio ar ymdeimlad plentyn o berthyn |
| 2. Yn deall rôl y gweithiwr chwarae o ran plant yn datblygu hunaniaeth | 2.1 Esbonio pwysigrwydd safle gwaith chwarae sy'n canolbwyntio ar y plentyn i hunaniaeth ddatblygol plentyn |
| | 2.2 Myfyrio ynghylch ffyrdd o weithio sy'n cefnogi hunaniaeth ddatblygol plant |
| 3. Yn gallu myfyrio ynghylch ymarfer mewn safle gwaith chwarae | 3.1 Ymgynghori â phlant er mwyn gwella ffyrdd o gefnogi hunaniaeth a lles plant mewn safle gwaith chwarae |
| | 3.2 Nodi argymhellion i wella ymarfer |
| | 3.3 Rhannu argymhellion ar gyfer newid gyda'i dîm ei hun mewn safle gwaith chwarae |
| 4. Yn deall perthnasedd hunaniaeth i iechyd meddwl plentyn | 4.1 Dadansoddi effaith esgeuluso pwysigrwydd hunaniaeth plentyn ar gyfer ei les emosiynol |

**Canllawiau cyflwyno ac asesu**

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Dylai dysgwyr ddeall sut i gefnogi plant i uniaethu â'u hunanddelwedd a'u hunaniaeth ethnig, ddiwylliannol a rhywiol eu hunain drwy eu chwarae ac ymfalchïo ynddynt.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- bortffolio o dystiolaeth megis tystiolaeth o ymgynghori â phlant neu wneud argymhellion i'r tîm gwaith chwarae – gallai hyn lywio myfyrdod neu drafodaeth broffesiynol
- arsylwi uniongyrchol
- disgrifiad myfyriol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW68: Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc
- SCDHSC0312: Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol a lles emosiynol

**Dulliau asesu a argymhellir**

Mae ystod o ddulliau asesu wedi'u hadnabod a'u hargymell, a gellir eu defnyddio ar gyfer yr unedau yn y cymhwyster hwn. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ystyried anghenion unigol dysgwyr.

Os ydych yn cynnig defnyddio dull asesu nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr a argymhellir, dylech gysylltu â'r sawl sy'n sicrhau ansawdd yn allanol a rhoi manylion llawn eich dull arfaethedig. Bydd angen i NCFE ei gymeradwyo'n ffurfiol cyn y gellir ei ddefnyddio.

Rhaid i bob dysgwr gynhyrchu tystiolaeth o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned (ni ddyfarnir graddau).

Trowch at y nodiadau yn ymwneud â thystiolaeth tyst arbenigol ac efelychiad sy'n dilyn y tabl hwn.

| Cyf | Dull asesu | Asesu cymhwysedd/ sgiliau | Asesu gwybodaeth/ dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| A | Arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol gan aseswr:<br>• gan aseswr sy'n bodloni strategaethau/egwyddorion asesu'r Cyngor Sector Sgiliau perthnasol neu eraill ac sy'n cynnwys casglu gwybodaeth o'r dull hwn o arsylwi ymarfer yn uniongyrchol | Ydy | Ydy |
| B | Trafodaeth broffesiynol | Ydy | Ydy |
| C | Tystiolaeth tyst arbenigol*:<br>• dan gyfarwyddyd y Cyngor Sector Sgiliau neu strategaethau/egwyddorion asesu eraill | Ydy | Ydy |
| D | Cynhyrchion gwaith y dysgwr ei hun | Ydy | Ydy |
| E | Cofnod neu ddyddiadur myfyriol y dysgwr | Ydy | Ydy |
| F | Cynllun gweithgaredd neu weithgaredd wedi'i drefnu | Ydy | Ydy |
| G | Arsylwi plant, pobl ifanc ac oedolion gan y dysgwr | Ydy | Ydy |
| H | Portffolio o dystiolaeth:<br>• gall gynnwys efelychiad** | Ydy | Ydy |
| I | Cydnabod dysgu blaenorol | Ydy | Ydy |

| Cyf | Dull asesu | Asesu cymhwysedd/ sgiliau | Asesu gwybodaeth/ dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| J | Myfyrio ar eich ymarfer eich hun mewn amgylchedd gwaith go iawn | Ydy | Ydy |
| K | Gwybodaeth ysgrifenedig a darluniadol | Nac ydy | Ydy |
| L | Senario neu astudiaeth achos | Nac ydy | Ydy |
| M | Tasg wedi'i gosod gan NCFE (ar gyfer canlyniadau dysgu gwybodaeth) | Nac ydy | Ydy |
| N | Holi ac ateb ar lafar | Ydy | Ydy |

* Dylid defnyddio **tystiolaeth tyst arbenigol** yn unol â'r strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol. Mae'n rhaid arfer disgresiwn proffesiynol wrth ddefnyddio'r dull hwn, a dylid ei ddefnyddio'n unig lle na fyddai arsylwi yn addas.  Mae'n rhaid i'r sawl sy'n darparu tystiolaeth tyst arbenigol fod yn ymarferwyr arweiniol gyda phrofiad o wneud dyfarniadau'n seiliedig ar gymhwysedd.  Mae'r amgylchiadau canlynol yn rhai sy'n caniatáu tystiolaeth tyst arbenigol:

- lle gallai asesiad achosi gofid i unigolyn, fel cefnogi plentyn gydag angen penodol
- sefyllfa sy'n digwydd yn anaml iawn, fel delio â damwain neu salwch
- sefyllfaoedd cyfrinachol, fel cyfarfodydd strategaeth diogelu, lle na fyddai'n briodol i aseswr arsylwi perfformiad y dysgwr.

** **Efelychiad** Mae portffolio o dystiolaeth dysgwr yn gallu cynnwys efelychu sgiliau cyn belled â bod y strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol yn caniatáu hynny.

## Strategaethau ac egwyddorion asesu sy’n berthnasol i’r cymhwyster hwn

Mae gofynion allweddol y strategaethau neu’r egwyddorion asesu sy’n berthnasol i’r unedau yn y cymhwyster hwn wedi’u crynhoi isod.

Mae angen i’r ganolfan sicrhau bod unigolion sy’n ymgymryd â rolau asesu neu sicrhau ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio â’n gofynion asesu i’r uned y maent yn ei hasesu neu’n sicrhau ei hansawdd.

## Egwyddorion asesu NCFE ar gyfer cymwysterau gofal oedolion, gofal plant ac iechyd

1. Cyflwyniad

1.1 Dylid darllen yr egwyddorion a'r dulliau hyn o asesu unedau/cymhwyster ochr yn ochr â gofynion asesu unedau unigol, lle bo'n briodol.

1.2 Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau dull cyson o ymdrin â'r elfennau hynny o asesu y mae angen eu dehongli a'u diffinio ymhellach, ac yn cefnogi hyder y sector.

1.3 Mae angen i'r ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n ymgymryd â rolau asesu neu sicrhau ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio ag egwyddorion asesu'r Cyngor Sgiliau Sector a/neu NCFE ar gyfer yr uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

**Asesu gwybodaeth, cymhwysedd a sgiliau**
Bydd angen i ddysgwyr fodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer gwybodaeth, cymhwysedd a sgiliau sydd wedi'u cynnwys yn y cymhwyster gan ddefnyddio dulliau asesu priodol.

**Cymhwysedd sgiliau ymarferol**
Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi'u cofrestru â hi fydd yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau asesu. Rhaid i aseswyr gael eu **contractio** i weithio'n uniongyrchol gyda'r ganolfan, gan gyfrannu at bob agwedd ar safoni. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod proses hyfforddi yn cael ei dilyn, gan gynnwys yn ystod gweithgareddau sefydlu a sicrhau ansawdd. Rhaid i aseswyr o’r ganolfan sy'n alwedigaethol alluog ac yn gymwys ddefnyddio arsylwi uniongyrchol i asesu canlyniadau dysgu ymarferol sy'n seiliedig ar sgiliau. Ceir rhagor o wybodaeth ac arweiniad isod.

### 2. Egwyddorion asesu

2.1 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau ymwneud â phrofiad a gafwyd mewn amgylchedd gwaith go iawn.

2.2 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau gael eu gwneud gan aseswr sy'n alwedigaethol alluog, ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu.

2.3 Rhaid i asesu ar sail cymhwysedd a sgiliau gynnwys arsylwi uniongyrchol fel y brif ffynhonnell dystiolaeth.

2.4 Dim ond lle mae hyn wedi'i nodi yn y gofynion asesu y gellir defnyddio efelychu fel dull asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

2.5 O ystyried natur gweithio gyda phlant, pobl ifanc, defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd (os yw’n berthnasol), a all o bryd i’w gilydd gynnwys sefyllfaoedd sensitif sy’n gofyn am gyfrinachedd/preifatrwydd, efallai y bydd angen defnyddio tystiolaeth tyst arbenigol fel ffynhonnell tystiolaeth perfformiad yn y gweithle.

Gellir tynnu tystion arbenigol o blith unigolion profiadol sy'n gallu tystio i berfformiad y dysgwr yn y gweithle. Gall hyn gynnwys rheolwyr llinell neu gydweithwyr profiadol eraill o'r tu mewn i sefydliad neu o asiantaethau eraill. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i'r dysgwyr hynny sy'n gweithio heb oruchwyliaeth, ond sydd â chyswllt ag amrywiaeth o wahanol weithwyr proffesiynol yn ystod eu gweithgareddau gwaith.

Dim ond pan fydd ganddynt arbenigedd galwedigaethol mewn meysydd arbenigol neu os yw'r arsylwi o natur sensitif iawn y dylid defnyddio tystion arbenigol ar gyfer arsylwi. Nid oes angen i dystion arbenigol feddu ar gymhwyster aseswr, gan fod yn rhaid i aseswr cymwysedig asesu'r dystiolaeth a ddarperir gan dyst arbenigol wrth wneud penderfyniadau asesu crynodol. Gweler hefyd adran 4.5.

Dylai'r ganolfan alluogi tystion arbenigol i ddarparu a chyflwyno eu tystiolaeth mewn ffordd effeithlon nad yw'n peryglu dilysrwydd a dibynadwyedd. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- defnyddio recordiadau llais a sain
- trwy drafodaethau o bell lle gallai’r prif aseswr ysgrifennu cyfraniadau’r tyst arbenigol (er enghraifft, trwy Microsoft Teams neu Zoom)
- dros y ffôn lle gallai'r aseswr ysgrifennu'r dystiolaeth

Yn ogystal, rhaid i ganolfannau addasu eu strategaethau sicrhau ansawdd mewnol (IQA) i sicrhau bod dyfarniadau aseswyr yn seiliedig ar dystiolaeth tystion arbenigol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithgareddau safoni a samplu.

Gellir defnyddio trafodaeth broffesiynol ac adroddiadau myfyriol i gefnogi mathau eraill o dystiolaeth ond nid ydynt yn ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol a all ddisodli’r gofyniad arsylwi.

2.6 Gellir asesu canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar wybodaeth y tu mewn neu'r tu allan i amgylchedd gwaith go iawn.

2.7 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar wybodaeth gael eu gwneud gan aelod o staff sy'n alwedigaethol wybodus, sy'n gymwys i wneud penderfyniadau asesu. Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi'u cofrestru â hi fydd yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau asesu. Rhaid i aseswyr o'r ganolfan sy'n alwedigaethol alluog ac yn gymwys ddefnyddio arsylwi uniongyrchol i asesu canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau ymarferol.

**Technoleg o bell**

2.8 Gwaherddir defnyddio technoleg o bell mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgol, gofal plant, iechyd a gofal oedolion lle mae risg bosibl y bydd defnyddwyr y gwasanaeth, neu eu gofalwyr/teuluoedd, yn cael eu gweld neu eu clywed yn anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio pob dyfais recordio a ffrydio fel ffonau symudol, gliniaduron a thabledi. Sylwch na ddylid defnyddio technoleg i weld asesiadau o bell, hyd yn oed pan nad ydych yn recordio. Er enghraifft, ni all aseswyr gwblhau arsylwadau o bell i brofi cymhwysedd trwy wylio dysgwyr yn ‘fyw’ gan ddefnyddio technoleg o bell.

Gellid ystyried defnyddio technolegau o bell i gefnogi agweddau ar berfformiad y dysgwr. Er enghraifft, gall hyn gynnwys sesiynau cynllunio, cyfarfodydd ar-lein a gweithgareddau o bell y mae'r dysgwr yn cyfrannu atynt a lle gallai'r aseswr hefyd fynychu o bell neu arsylwi trwy ddefnyddio technoleg. Yn yr

enghreifftiau hyn, **rhaid** i'r dysgwr fod mewn amgylchedd i ffwrdd oddi wrth unrhyw blant, pobl ifanc, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Gellid hefyd ystyried defnyddio technolegau ar gyfer casglu tystiolaethau tystion arbenigol.

**3. Sicrhau ansawdd mewnol (IQA)**

3.1 Mae sicrhau ansawdd mewnol yn allweddol i sicrhau bod yr asesiad o dystiolaeth ar gyfer unedau o ansawdd cyson a phriodol. Rhaid i'r rhai sy'n cynnal sicrwydd ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus yn y maes y maent yn ei sicrhau a bod yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

**Canlyniadau dysgu gwybodaeth:**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- bydd angen i swyddogion sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd

**Canlyniadau dysgu sgiliau/cymhwysedd:**

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol alluog ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- bydd angen i rai sy’n sicrhau ansawdd yn fewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd

4. Diffiniadau

4.1 Yn alwedigaethol alluog:
Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu cyflawni'r gofynion llawn o fewn yr unedau cymhwysedd y maent yn eu hasesu. Mae bod yn alwedigaethol alluog yn golygu eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus. Dylid cynnal y gallu galwedigaethol hwn trwy ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol amlwg.

4.2 Yn alwedigaethol wybodus:
Mae hyn yn golygu y dylai pob aseswr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol a gallu asesu hyn mewn unedau a gynlluniwyd i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth benodol, neu mewn unedau lle mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn gydrannau o gymhwysedd. Dylid cynnal y wybodaeth alwedigaethol hon trwy ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol amlwg.

4.3 Yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu:
Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr feddu ar gymhwyster sy'n addas i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau asesu priodol a chyson. Bydd sefydliadau dyfarnu yn pennu beth fydd yn cymhwyso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu yn unol â'r uned gymhwysedd sy'n cael ei hasesu.

Dylai aseswyr y cymwysterau hyn fod â chymwysterau priodol i wneud penderfyniadau asesu. Er nad yw’n ofyniad penodol ar gyfer y cymwysterau hyn, rydym o’r farn ei bod yn arfer da i aseswyr feddu ar, neu fod yn gweithio tuag at, gymhwyster cydnabyddedig mewn asesu. Lle nad oes cymhwyster cydnabyddedig, dylai aseswyr allu dangos profiad perthnasol a chyfredol o asesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar wybodaeth, dylai'r aseswr fod yn alwedigaethol wybodus. Dylai fod ganddynt wybodaeth berthnasol i asesu unedau a gynlluniwyd i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Dylai'r wybodaeth hon fod yn amlwg trwy gymwysterau/profiad perthnasol ac ar lefel gyfatebol neu uwch na'r unedau sy'n cael eu hasesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, dylai'r aseswr fod yn alwedigaethol alluog. Dylent allu cyflawni gofynion yr unedau y maent yn eu hasesu. Dylai'r cymhwysedd hwn fod yn amlwg trwy gymwysterau/profiad perthnasol ac ar lefel gyfatebol neu uwch na'r unedau sy'n cael eu hasesu. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gymwysterau/rolau y gall tiwtoriaid/athrawon/aseswyr eu dal er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag asesu dysgwyr:

- cymhwyster aseswr fel D32/D33, A1/A2 neu Ddyfarniad/Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Statws Athro Cymwysedig/Statws Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar
- Tystysgrif Addysg mewn Addysg Ôl-orfodol (PCE)
- Tystysgrif mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS)
- Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTLLS)

Ni fwriedir i unrhyw enghreifftiau a roddir fod yn hollgynhwysfawr nac yn derfynol. Rhoddir enghreifftiau o gymwysterau a chefndiroedd galwedigaethol perthnasol fel meincnodau. Gall cymwysterau neu gefndiroedd cyfatebol eraill hefyd gymhwyso darpar staff ar gyfer rolau asesu. Dylai canolfannau sydd am gael eglurhad pellach gysylltu â'u swyddog sicrhau ansawdd allanol yn y lle cyntaf.

4.4 Yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd:
Bydd NCFE yn penderfynu pa gymwysterau a/neu brofiad sy'n ofynnol mewn perthynas â:

- rôl yr aseswr ar gyfer meini prawf asesu sy'n seiliedig ar wybodaeth
- rôl yr aseswr ar gyfer meini prawf asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau
- rôl y swyddog sicrhau ansawdd mewnol

4.5 Tyst arbenigol:
Rhaid i dystiolaeth gan dystion arbenigol fodloni profion sicrwydd, dibynadwyedd a dilysrwydd. Bydd angen i dystion arbenigol ddangos:

- bod ganddynt wybodaeth ymarferol o'r unedau y mae eu harbenigedd yn seiliedig arnynt
- eu bod yn alwedigaethol alluog yn eu maes arbenigedd
- bod ganddynt **naill ai** unrhyw gymhwyster mewn asesu perfformiad yn y gweithle **neu** rôl gwaith proffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso arferion beunyddiol staff
- bod ganddynt brofiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf) o weithio ar y lefel y maent yn ardystio cymhwysedd ar ei chyfer neu'n uwch
- y gallant ddangos datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) priodol sy'n berthnasol i'r sector y maent yn ardystio cymhwysedd ar ei gyfer
- nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau yng nghanlyniad y dystiolaeth

## Adran 3: esboniad o dermau

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir ar lefel 2 yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymhwyster hwn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymhwyster hwn).

| | |
|---|---|
| **Amcangyfrif** | Rhoi bras benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol. |
| **Arddangos** | Dangos dealltwriaeth o'r pwnc neu sut i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol. |
| **Asesu** | Ystyried gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau. |
| **Cyflawni** | Gwneud rhywbeth (cymryd cam/dilyn cyfarwyddyd) y mae'r cwestiwn neu'r dasg yn gofyn amdano neu'n ei fynnu. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymhwyso** | Cysylltu gwybodaeth bresennol â sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol Gellid cyflwyno hwn fel gwybodaeth ysgrifenedig, diagram, darlun, neu fformat addas arall. |
| **Dangos** | Darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth. |
| **Darlunio** | Rhoi gwybodaeth glir gan ddefnyddio enghreifftiau ysgrifenedig, lluniau neu ddiagramau. |
| **Darparu** | Rhoi gwybodaeth berthnasol am bwnc. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau. |
| **Defnyddio** | Cymryd neu gymhwyso eitem, adnodd, neu ddarn o wybodaeth fel y gofynnir yn y cwestiwn neu'r dasg. |
| **Dewis** | Dewis at ddiben penodol. |
| **Diffinio** | Nodi ystyr gair neu ymadrodd. |
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan roi gwybodaeth fanwl. |
| **Dosbarthu** | Trefnu'n unol â meini prawf penodol. |
| **Esbonio** | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai rhai ymatebion gynnwys enghreifftiau. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Hynodi** | Dangos neu gydnabod y gwahaniaeth rhwng eitemau/syniadau/gwybodaeth. |
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr edrych yn ôl ar y camau a gymerwyd ganddynt, eu profiadau neu eu dysgu ac ystyried sut y gallai hyn lywio eu hymarfer yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Nodi** | Rhestru neu enwi’r prif bwyntiau. (efallai y bydd angen ychydig ddisgrifiad hefyd i sicrhau marciau uwch wrth ddefnyddio dull marcio cydadferol). |
| **Rhestru** | Gwneud rhestr o eiriau, brawddegau neu sylwadau allweddol sy'n canolbwyntio ar y pwnc. |
| **Rhoi (pwyntiau cadarnhaol a negyddol...)** | Darparu gwybodaeth sy'n dangos manteision ac anfanteision y pwnc. |
| **Trafod** | Ysgrifennu disgrifiad sy'n rhoi mwy nag un farn neu safbwynt. |

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir ar lefel 3 yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymhwyster hwn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymhwyster hwn).

| | |
|---|---|
| **Cymhwyso** | Egluro sut y gellir cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Dadansoddi** | Rhannu'r pwnc yn rhannau unigol ac archwilio pob un. Dangos y cysylltiad rhwng y prif syniadau a pham maent yn bwysig. Mae cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol yn gallu cefnogi'r dadansoddiad. |
| **Egluro** | Esbonio'r wybodaeth mewn modd eglur a chryno. |
| **Dosbarthu** | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| **Coladu** | Casglu a chyflwyno gwybodaeth mewn trefn ddilyniannol neu resymegol. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymharu'n feirniadol** | Dyma ddatblygiad o 'cymharu' lle mae'r dysgwr yn ystyried agweddau positif a chyfyngiadau'r pwnc. |
| **Ystyried** | Meddwl yn ofalus ac ysgrifennu am broblem, gweithred neu benderfyniad. |
| **Arddangos** | Dangos dealltwriaeth trwy ddisgrifio, egluro neu ddarlunio gan ddefnyddio enghreifftiau. |
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan gynnig gwybodaeth fanwl mewn ffordd resymegol. |
| **Datblygu (cynllun/syniad sydd)** | Yn ehangu cynllun neu syniad trwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder y wybodaeth. |
| **Gwneud diagnosis** | Adnabod yr achos yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Trafod** | Ysgrifennu adroddiad manwl yn rhoi ystod o safbwyntiau neu farnau. |
| **Hynodi** | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dau neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| **Dod i gasgliad (sydd)** | Yn gwneud penderfyniad neu ddyfarniad terfynol yn seiliedig ar resymau. |
| **Amcangyfrif** | Cynnig amcangyfrif o benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol neu ystyried gwybodaeth arall. |
| **Gwerthuso** | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu nodweddion tebyg ac annhebyg. Barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a llunio casgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Mae cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol yn gallu cefnogi'r gwerthusiad. |
| **Esbonio** | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai atebion gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn. |

| | |
|---|---|
| **Allosod** | Defnyddio gwybodaeth flaenorol i ragfynegi canlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r norm. |
| **Nodi** | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. (efallai y bydd angen rhyw ddisgrifiad hefyd i ennill marciau uwch wrth ddefnyddio dull marcio cydadferol). |
| **Gweithredu** | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| **Dehongli** | Esbonio ystyr rhywbeth |
| **Barnu** | Ffurfio barn neu wneud penderfyniad. |
| **Cyfiawnhau** | Rhoi esboniad boddhaol dros weithredoedd neu benderfyniadau. |
| **Cyflawni** | Cyflawni tasg neu broses yn unol â gofynion y cwestiwn. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol gan ddefnyddio ffurf addas. |
| **Darparu** | Nodi a rhoi gwybodaeth berthasol a manwl mewn perthynas â'r pwnc. |
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr ystyried eu gweithredoedd, eu profiadau neu eu dysgu a goblygiadau hyn ar gyfer eu hymarfer a/neu eu datblygiad proffesiynol. |
| **Adolygu a diwygio** | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau. |
| **Dewis** | Gwneud dewis gwybodus ar gyfer pwrpas penodol. |
| **Dangos** | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| **Crynhoi** | Rhoi'r prif syniadau neu'r ffeithiau mewn ffordd gryno. |

## Adran 4: cymorth

### Deunyddiau cymorth

Mae'r deunyddiau cymorth canlynol ar gael i gynorthwyo gyda chyflwyno'r cymhwyster hwn ac maent ar gael ar wefan NCFE:

- log olrhain tystiolaeth dysgwr (LETL)
- taflen ffeithiau cymhwyster

### Deunyddiau cymorth eraill

Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth gyflwyno'r cymhwyster hwn fod yn briodol i oedran, a dylid rhoi ystyriaeth briodol i les a diogelu dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich sefydliad wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau cyflenwi.

### Atgynhyrchu'r ddogfen hon

Caniateir atgynhyrchu gan ganolfannau cymeradwy at ddefnydd mewnol o dan yr amodau canlynol:

- cewch gopïo a gludo unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon; fodd bynnag, ni dderbyniwn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gopïo anghyflawn neu wallus nac unrhyw ddefnydd pellach a wneir o'r wybodaeth
- bydd defnyddio fersiynau PDF o'n deunyddiau cymorth ar wefan NCFE yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr yn gywir a chyfredol
- ein heiddo ni yn unig yw unrhyw luniau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn neu fe'u defnyddir o dan drwydded gan drydydd parti:
    - fe'u diogelir yn ôl cyfraith hawlfraint, ac ni ellir eu hatgynhyrchu, eu copïo na'u haddasu drwy unrhyw fodd
    - mae hyn yn cynnwys defnyddio unrhyw ddelwedd neu ran o ddelwedd mewn prosiectau unigol neu grŵp a deunyddiau asesu
    - mae pob delwedd yn destun caniatâd i ddefnyddio delwedd unigolyn

**Cysylltwch â ni**

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Ffacs: 0191 239 8001
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefan: www.ncfe.org.uk

**Hawlfraint NCFE © 2023 Cedwir pob hawl yn fyd-eang**

Fersiwn 2.0 Tachwedd 2023
Mae’r wybodaeth yn y fanyleb gymhwyster hon yn gywir adeg ei chyhoeddi ond gall fod yn destun newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2896700).

Mae CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; a NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy’n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn cael ei warchod gan hawlfraint.

***I barhau i wella ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***

**Atodiad A**

**Unedau**

Er mwyn ei gwneud yn haws croesgyfeirio, asesu a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilynol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.

☆ Dynodir unedau gwybodaeth yn unig gan seren. Os nad oes seren yn dynodi uned, mae’n uned sgiliau neu’n uned sy’n cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth.

Unedau gorfodol

| | Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☆ | L2PW1 | A/650/0574 | Deall yr egwyddorion gwaith chwarae | 2 | 3 | 21 | |
| ☆ | L2PW2 | D/650/0575 | Deall y safle gwaith chwarae | 2 | 3 | 29 | |
| | L2PW3 | F/650/0576 | Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae | 2 | 3 | 26 | |
| | L2PW4 | H/650/0577 | Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn safle gwaith chwarae | 2 | 3 | 26 | |
| ☆ | L2PW5 | J/650/0578 | deall sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae | 2 | 3 | 36 | |
| | L2PW6 | K/650/0579 | Cefnogi perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae | 2 | 3 | 24 | |

| Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| L2PW7 | R/650/0580 | Cefnogi chwarae plant | 2 | 4 | 26 | |
| L2PW8 | T/650/0581 | Cefnogi iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae | 2 | 4 | 35 | |
| L2PW9 | Y/650/0582 | Budd risg i blant | 2 | 4 | 25 | |
| L2PW10 | A/650/0583 | Diogelu a lles plant mewn safle gwaith chwarae | 2 | 4 | 32 | |
| L2PW11 | D/650/0584 | Cefnogi gwaith y tîm gwaith chwarae | 2 | 3 | 21 | |
| L2PW12 | F/650/0585 | Datblygu eich ymarfer eich hun | 2 | 3 | 21 | |

**Unedau dewisol**

| Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| L2PWOP1 | H/650/0586 | Cynnal gwaith chwarae mewn ysgol | 2 | 4 | 30 | |
| L2PWOP2 | J/650/0587 | Cyfrannu at ddarparu bwyd a diod yn y safle gwaith chwarae | 2 | 4 | 30 | |
| L2PWOP3 | K/650/0588 | Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 2 | 6 | 45 | |
| L2PWOP4 | L/650/0589 | Sefydlu a hwyluso gwaith chwarae mewn safle amhenodedig | 3 | 6 | 45 | |
| L2PWOP5 | T/650/0590 | Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol | 3 | 6 | 45 | |
| L2PWOP6 | Y/650/0591 | Cefnogi teithio gan blant y tu allan i'r safle gwaith chwarae | 2 | 6 | 45 | |
| L2PWOP7 | A/650/0592 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae | 2 | 4 | 30 | |
| L2PWOP8 | D/650/0593 | Cefnogi chwarae y tu allan | 2 | 3 | 30 | |
| L2PWOP9 | F/650/0594 | Cefnogi plant i ddatblygu hunaniaeth a lles | 2 | 3 | 30 | |

Gall yr unedau uchod fod ar gael fel rhaglenni uned annibynnol. Ewch i wefan NCFE am ragor o wybodaeth.